

Anrhydeddu Roy a Rhoswen Llewellyn



Wyn Owens, bardd yr englyn; Roy a Rhoswen Llewellyn; Beti a Sian; Anthony Jenner, Cadeirydd Cyngor Cymuned Cilmaenllwyd; Eurfyl Lewis, Cadeirydd Cenedlaethol Cymdeithas yr Hoelion Wyth; y Parchedigion Euros Jones Evans ac Aled Gwyn a Carol Ayres.

Cynhaliwyd noson arbennig iawn yng Nghanolfan Gymdeithasol Ffynnonwen, Login ar nos Iau, Mehefin 30ain wrth i Gymdeithas yr Hoelion Wyth anrhydeddu Roy a Rhoswen Llewellyn am roi oes o wasaneth i gymuned eang. Daeth cynulleidfau fawr ynghyd i ddweud diolch, dangos eu gwerthfawrogiad ac i dalu parch i ddau berson arbennig iawn, dau o gymwynaswyr mawr y broydd hyn. Braf oedd cael cwmni teulu Roy a Rhoswen yn ogystal â cynrychiolaeth dda o Gymdeithas yr Hoelion Wyth, Capel Ramoth Cwmfelin Mynach, Cyngorau Cymuned Cilmaenllwyd, Llanboidy a Llanwinio, Papur Bro y Cardi Bach, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr a Pwyllgor Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen – i enwi dim ond rhai o'r mudiadau a'r cymdeithasau mae Roy a Rhoswen wedi bod yn ymwneud â nhw dros y degawdau diwethaf.

Mae Cymdeithas yr Hoelion Wyth wedi bod yn anrhydeddu unigolyn yn flynyddol ers sawl blwyddyn bellach, ond dyma'r tro cyntaf i ni anrhydeddu dau gyda'u gilydd. Os buodd rhywun erioed yn haeddu'r fath anrhydedd, wel Roy a Rhoswen yw rheiny! Mae eu gweithgarwch a'u cyfraniad i'r broydd hyn wedi bod, ac yn dal i fod, yn ddjarhebol ac yn

hollol rhyfeddol – a mawr yw ein dyled a'n diolch iddynt.

Bu'n fraint ac yn bleser pur i minnau, nid yn unig yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Cymdeithas yr Hoelion Wyth, ond hefyd ar lefel bersonol, i drefnu'r noson ar ran y gymdeithas ac i ddadorchuddio'r plac. Ma Roy a Rhoswen wedi cael dylanwad mawr arnaf i, ac ar fywydau cymaint ohonom, dros gyfnod maith. Yn Ffynnonwen dechreuodd fy nghysylltiad gyda'r ddau, dros hanner canrif nôl bellach, cysylltiad wnaeth droi yn gyfeillgarwch agos, sydd wedi para byth ers hynny.

Talwyd teyrngede cynnes a chlodwiw i Roy a Rhoswen, gennyf i, Aled Gwyn, Euros Jones Evans, Beti a Sian a Carol Ayers, diolch iddynt am hynny. Bu cwmni teledu Tinopolis yn ffilmio'r achlysur a talwyd teyrnged diffuant hefyd gan Wyn Evans, ar ran, ac yng Nghapel Ramoth, mlan llaw. Diolch o galon i Bwyllgor Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen am y cydweithio agos ac hapus fu rhyngom ynglyn â'r trefniade;



i Wyn Owens am lunio'r englyn gwydych sydd wedi ei gynnwys ar y plac; i Gyngor Cymuned Cilmaenllwyd am ei ariannu; i Clive Edwards am ei rodd yntau; i William a Sian Evans am ganiatau i ni barcio ceir yn y cae gyferbyn â'r Ganolfan ac ac i'r gynulleidfau am eu presenoldeb.

parhad ar dudalen 7

Y CARDI BACH

Golygydd,	Eurhyl Lewis
Cadeirydd a	01994 419495
Dosbarthwr	
Is-gadeirydd:	Iola Wyn
	07870 100831
Ysgrifennydd:	Beti Wyn James
	01994 230966
Trysorydd,	
Ffotograffydd,	
Dosbarthwr	
drwy'r post a	Roy Llewellyn
Hysbysebion:	01994 448283
Trysorydd y	Rhian White
Clwb '200':	01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen
	Evans
	01994 448447
Cystadleuaeth	John Arfon Jones
	01994 240536
Cornel y	Albie Abbott
Dysgwyr::	01239 831641
Tudalen y Plant:	Llinos Mair Thomas
Llewyrch i'm Llwybr:	Eurhyl Lewis
Cornel Coginio:	Winnie James
	01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans
	01994 448392
Cornel Garddio:	John Davies
	01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

Ymhen ychydig wythnosau, fe fydd hi'n ddeng mlynedd ar hugain ers i mi ddechrau gweithio ym maes newyddiaduraeth. Bu straeon mawr yn y penawdau ym mhob degawd, ac mae sawl un yn dal i fod yn fyw yn y cof.

Roedd 1997 yn flwyddyn fawr, yn llawn straeon sydd yn y llyfrau hanes. Rydw i'n cofio rhuthro i mewn i'r ystafell newyddion wedi'r newyddion cwbl annisgwyl am farwolaeth Diana, ac yna gweithio yn ystod yr oriau man, wrth i ganlyniad y refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru gael ei gyhoeddi. Wnai fyth anghofio'r gohebydd John Meredith yn yngan y gair 'ydwyl' gan adael y gath mas o'r cwd fod y canlyniad olaf yn Sir Gaerfyrddin yn ddigon i sicrhau y byddai yna Gynulliad i Gymru o drwch blewyn.

Daeth 2001 a finne'n disgwyl y cyntaf anedig. Ac ar Fedi'r 11eg, union fis cyn i Llew Arthur gael ei eni'n gynnar ar Hydref yr 11eg, fe wylies i olygfeydd cwbl erchyll ar y sgrin deledu yn fyw o Efrog Newydd, wrth i awyren hedfan trwy ganol Canolfan Masnach Y Byd. Newidiodd y byd y diwrnod hwnnw. Fe ddaeth hi'n amlwg bod ymosodiadau terfysgol yma i aros, a'n bod bellach yn byw mewn byd lle byddai angen i bawb fod ar eu gwyliadwraeth. Newidiodd ein trefniadau teithio yn enwedig mewn awyrennau, gyda diogelwch llym yn parhau i fod mewn meysydd awyr. Yn sgil yr ymosodiadau hynny, dechreuodd rhyfeloedd yn Irac ac Affganistan, a'r tensiynau rhwng gwledydd y gorllewin a'r dwyrain canol yn dwyshau, a'r sefyllfa'n dal i fod yn fregus.

Ar lefel bersonol, mae'n anodd anghofio'r straeon torcalonnus y bu'n rhaid gohebu amyn nhw, a thrychineb glofa'r Gleision yng Nghilybebyll, Pontardawe yn 2011 yn dal i aros yn fyw yn y cof, yn enwedig yr oriau y tu allan i'r ganolfan hamdden yn aros a gweddio am newyddion calonogol, a gwylio plant bach – aelodau o deulu'r glowyr yn chwarae y tu allan.

Yn ystod y deng mlynedd ar hugain ddiwetha, rydw i wedi gweld 6 o brif weinidogion yn camu dros drothwy Rhif 10 Downing Street, 4 o'r Blaid Geidwadol a 2 o'r Blaid Lafur. Yn naturiol, bu dyddiau da a drwg yn nghalendr John Major, Tony Blair, Gordon Brown, David Cameron, Theresa May a Boris Johnson, ond y chwe mis diwethaf yw'r cyfnod rhyfeddaf eto yn San Steffan. A neb yn medru darogan beth allai ddigwydd nesaf.

Anodd fydd gwaredu creithiau pandemig Covid-19 a frawychodd y byd cyfan ac a achosodd gymaint o dorcalon a chreulondeb ym mhob cymuned. Ac mae'r hyn ddigwyddodd oddi mewn i furiau Downing Street a thu hwnt yn ystod y cyfnodau clo, pan roedd y mwyafrif llethol yn glynu at y rheolau er mwyn gwarchod eraill, yn dal i beri loes i nifer fawr o bobl, yn enwedig y rhai a fu'n galaru ar eu pen eu hunain, ac a fu mewn angladd heb neb i'w cysuro.

Wedi iddo ddal ei dir am dros hanner blwyddyn, mae'r capten oedd wrth y llyw wedi gadael y llong. Adfer ffydd y mwyafrif fydd yr her i'w olynydd, yn enwedig y rhai sy' fyth yn tywyllu gorsafodd pleidleisio, a'r rhai sydd wedi anobeithio.

Ac er i ni brofi sawl pennod ddramatig yn ddiweddar, mae'n bwysig cofio nad opera sebon yw newyddion.

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA	Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
CWMFELIN	Nansi Evans
MYNACH:	01994 448392
EFAILWEN:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com
(Newyddion Tabernacl)	Parch. Guto Llywelyn 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.luest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT:	Linda Davies 01994 484657 lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR

Mae'r Beibl wedi cael ei ddisgrifio fel y llyfr mwyaf chwyldroadol yn y byd. Ac mae Emyr Mawl Mair, neu'r Magnificat, wedi cael ei ddisgrifio fel y ddogfen fwyaf chwyldroadol yn y byd. (Efengyl Luc, pennod 1, adnodau 46-55)

Mair mam Iesu wnaeth ysgrifennu yr Emyr Mawl. Ac ynddo cawn ymateb Mair ar ôl iddi glywed ei bod yn mynd i gael y fraint i fod yn fam i fab Duw: ac fe welwn fan hyn tri o chwyldroadau Duw.

1) '*Gwasgarodd ddynion balch eu calon*'. Dyna chwyldro moesol. Mae Cristnogaeth yn golygu marwolaeth balchder ac ego. A hynny oherwydd bod cymharu ein hunain ag Iesu yn golygu diwedd ar pob ego a balchder. Gweld ei hunan wnaeth Sacheus y diwrnod hwnnw yn Jericho a penderfynu newid yn syth.

2) '*Tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau a dyrchafodd y rhai distadl*'. Dyma chwyldro cymdeithasol. Dyma ddiwedd i labeli pobol yn naill ai yn bwysig neu ddim yn bwysig. Mae'n byd ni yn hoffi rhoi trefn hierarchaidd i bopeth gan osod rhai pobol ar y brig a rhai ar y gwaelod. Ond dyma sôn am y Duw sydd yn codi pawb sydd ar y gwaelod, ac yn poeni llawer mwy am y di-nod, y tlawd a'r anghenus mewn cymdeithas, na'r rhai ar y brig.

3) '*Llwythodd y newynog â rhoddion, ac anfonodd y cyfoethogion ymaith yn waglaw*'. Dyna chwyldro economaidd. Yn ein byd ni mae pawb yn casglu gymaint ag y gallant iddyn nhw eu hunain heb boeni am neb arall. Ond dyma chwyldro i wneud y byd yma yn fwy teg ac i rannu adnoddau'r byd yma yn fwy cyfartal rhwng pawb. Fel y dywed William Barclay "A Christian society is a society where no man dares to have too much, while others have too little, where every man must get only to give away."

Dyna'r tri chwyldro mae Duw eisiau - un moesol, un cymdeithasol ac un economaidd. Mewn byd lle mae gymaint o bobol yn bysgod marw yn mynd gyda'r llyf, gadewch i ni fod yn bysgod byw, yn nofio yn erbyn y llyf. Os wnawn ni hynny gallwn weithio gyda Duw i greu chwyldro moesol, cymdeithasol ac economaidd.

Y Parchg Guto Llywelyn

NOSON I GOFIO AM



Undeg

Nos Wener, Hydref 7^{fed} 2022

Gwesty Nantylfin, Llandysilio.

am 7.30 yh.

Yr Artistiaid bydd

Dafydd Iwan a'r Band

Clive Edwards (Arweinydd)

Sioned Llewelyn

Angharad James

TOCYN - £15

ar gael wrth Tudur ar

01994 419696 neu 07971 365083



MYNEDIAD DRWY DOCYN YN UNIG

Elw yn mynd tuag at
Ymatebydd Cyntaf Crymch a Cronfa Ifan Phillips

CYSTADLEUAETH *gan John Arfon*

Blin iawn oeddwn o glywed am farwolaeth Trefor Grif-fiths, Llanbariets, Llanfallteg yn ddiweddar. Roedd yn ffrind da i'r Cardi Bach, y Clwb 200, ac hefyd i Ruby a minnau. Byddai'n galw yn rheolaidd gyda ni a hoffwn ddatgan ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu a phawb arall sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y misoedd diwethaf hyn.

Dyma atebion posau mis Mai.

(a) Cloc y Cwch Gwenyn:

- Graddio, 2. Trafod, 3. Diafol, 4. Diweddu,
- Gweled, 6. Cerdded, 7. Cernyw, 8. Cynyddu,
- Adduned, 10. Teledu, 11. Rhywsut, 12. Cywion.

(b) Y Croesair:

- Ar Draws.** 1. Tyrpeg, 5. Ansicr, 9. Sobri, 10. Aberdyfi, 12. Ohonynt, 13. Cantref, 14. Gwasg, 16. Dychmygion, 18. Noethlymun, 21. Gwnaf, 22. Ardudwy, 24. Baledwr, 26. Trysorydd, 27. Eilio, 28. Yn Fuan, 29. Dyddiau.

- I Lawr.** 2. Ysbio, 3. Prifysgol, 4. Gwastad, 5. Abercych, 6. Sidan, 7. Cyfarchion, 8. Ysgol Gynradd, 11. I Fyny Fo'r Nod, 15. Aberdaron, 17. Ysgol Gerdd, 19. Mwyaren, 20. Neb i Ddod, 23. Dysgu, 25. Delta.

Siomedig iawn oedd yr ymateb i'r gystadleuaeth yma, ond y cyntaf allan o'r het y tro hyn ac sy'n ennill y wobr o £5 yw Dorothy Williams, Rhoswyn, Efailwen, gyda'r ail wobr o Lyfr Cymraeg yn mynd i Susan Phillips, Gorsewion. Llangynin. Longyfarchiadau mawr iddynt ac i'r canlynol am gael yr atebion cywir: Phyllis Hughes, Huw Davies, Pwlltrap; Peter Crowdie. San Cler; Eilyr Thomas. Llandysilio; John Lewis, Meidrim a Tegwen James, Blaenwaun, Gobeithio y caf llawer mwy yn cystadlu ar y gystadleuaeth y mis hwn.

Dyma atebion y Cwrosw a Chwilair Mai

O	X	O	X	O	X
O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X
O	X	X	O	O	X
X	O	X	P	X	O
X	O	O	X	X	O

6	1	9	4	2	7	8	5	3
8	4	2	1	5	3	9	6	7
5	7	3	6	9	8	2	4	1
1	3	5	2	6	4	7	9	8
2	9	6	7	8	5	1	3	4
7	8	4	9	3	1	6	2	5
3	6	7	8	4	2	5	1	9
9	5	1	3	7	6	4	8	2
4	2	8	5	1	9	3	7	6

Dyma ddau bôs i'ch difyrru y mis hwn

				O	
			O	O	
		X			
O					
X	X				
					X

				1	6	5	9	
2	1	4			8	3		6
		5	7					1
9	2		6	8		4		5
1								
5					9		6	7
					7			
3		9	1			8	4	2
	6	1	4	9	2	7		

Mae tri rhan i gystadleuaeth **A** y mis yma, ac mae'n rhaid ateb y tri rhan yn hollol gywir os am y siawns o'r gwobrau. Yna mae dwy ran i gystadleuaeth **B**, fel y gwelwch yn nes ymlaen.

Dyma Gystadleuaeth A

(1)

Or Diwedd yw y gyntaf

Yn y pŵs hwn mae diwedd pob gair a gewch wrth ddatrys y cliwiau yn diweddu gyda "or".

e.e. Ffram a ddenyddir i gario arch. (4) _ _ _ _ Yr ateb wrth gwrs fyddai "elor".


Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren.

Dyma'r cliwiau ichwi eu datrys :-

1. Yr Arglwydd Dduw (3) _ _ _
2. Genedigaeth cyw o wy (4) _ _ _ _
3. Rhan o'r flwyddyn. (5) _ _ _ _ _
4. Meddyg (6) _ _ _ _ _
5. Panel trafod (7) _ _ _ _ _
6. Troseddwr yn y ddalfa (8) _ _ _ _ _
7. Heb boeni am onestrwydd (9) _ _ _ _ _
8. Un o flaen rhywun yn y Set Fawr (10) _ _ _ _ _
9. Ardal Griffith Jones (9) _ _ _ _ _
10. Angenrheidiol neu hanfodol (8) _ _ _ _ _
11. Mis o'r flwyddyn. (7) _ _ _ _ _
12. Tros y môr. (6) _ _ _ _ _
13. Rhidyll. (5) _ _ _ _ _
14. Offeryn bachu cwch wrth waelod y môr. (4) _ _ _ _
15. Ehangder o ddwr hallt (3) _ _ _

(2)

Mae'r atebion i'r holl gliwiau yn enwau ar lefydd yng Nghymru. Wedi ichwi lenwi'r grid dylech gael ateb lle arall yng Nghymru trwy ddarllen i lawr y blychau llwyd.



Dyma'r cliwiau :-

1. Sefydlwyd Plaid Cymru yma yn 1925
2. Yma cynhelir y Sesiwn Fawr.
3. Cawn bryd yma yng Nghaffi Beca.
4. Yma gellir gweld tapestri Glaniad y Ffrancod.
5. Bu Eisteddfod yr Urdd yma yn 1973.
6. Cafodd y dref hon ei dyrchafu i ddinas yn 2022
7. Cartref Hogiau'r Wyddfa
8. Enw Cymraeg Hawarden
9. Mae bedd Dylan yma



Os bydd eich ateb yn gywir, gobeithio y cewch y siawns i ymweld a "GARNEDD DI-BONT" os ail-drefnwch y llythrennau

(3)

Oddi tano fe welwch ddau grid croesair yn union yr un fath, ac oddi tan y rhai hynny cewch nifer o eiriau. Y pŵs yw ceisio rhoi y geiriau hyn i gyd yn y ddau

groesair. Er mwyn eich helpu i gael dechreuad, rwyf wedi rhoi un llythyren o'r ateb i 14 ar draws yng nghroesair A

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren



6 llythyren: casglu, eilradd, gwymon, llewygu, offeryn, suliau, swigod, Uniawn.

			12			5		1		3	6
		5		10	12	1	6		8		2
	11		8		3					4	
1		6		5				12			
	7		3				12			2	9
	4	11							1		8
3	5					9					11
	1			6			11		4		
9			11					6			1
	8				6		1			12	4
4		3		2					5		10
2	10			11	4	8		7	6	1	

[illegible]

Peidiwch a gadael
anfon eich cynigion
i mewn tan y funud
olaf. Cofiwch fod yn
rheid ichwi fod yn
aelod o'r Clwb 200 os
am y siawns o ennill
gwobr.

parhad o dudalen 1

i'r gynulleidfa am eu presenoldeb.
Diolchodd Roy yn gynnes iawn gan
bwysleisio taw dyma'r anrhydedd
fwyaf mae e a Rhoswen wedi ei
dderbyn erioed.

Cafwyd cyfle i gymdeithasu
ymhellach tu fewn y Ganolfan,
drwy fwynhau lluniaeth wedi ei
baratoi gan bwyllgor y Ganolfan
a diolchodd Roy yn gynnes iawn i
bawb fu'n paratoi'r arlwy.
Arwyr oes - Roy a Rhoswen!

Eurfyl Lewis

I gyfarch Roy a Rhoswen

Roy a Rhoswen; llawenydd yw i ni
Yn awr ganu'ch clodydd.
Dau ffyddlon, dewrion eich dydd
Yn tywys ym mhob tywydd.

Aled Gwyn

Y DDEUDDYN YN Y WAL

I Roy a Rhoswen Llewellyn ar
achlysur gosod plac ar wal Canolfan
Gymdeithasol Ffynnonwen nos Iau 30
Mehfin 2022, i ddynodi eu cyfraniad
mawr i gymdeithas yr ardal.

Mae lleisiau hen blentyndod
yn haenau'r muriau hyn;
cyneuant ynom heno
gan roi ein cof ar gynn;
ein Alma Mater ydyw,
fe gofiwn hynny'n awr
nyni a gafodd addysg
y ddeurwm bach a mawr.

Ac fel gwenoliaid buain
a wibiai 'n ôl a mlaen
i wneud flynyddol nythod
dan fargod gyda graen,
fe ddartia'r dyddiau hynny
ar hynt i daro'r nod
gan dreiddio â'u buander
hyd ddyfnder eitha'n bod.

Bu'r waliau yn arddangos
campweithiau bysedd bach;
pob llun a cherdd ac ysgrif
yn dangos doniau iach.
Â balchder rhedem adre
- fe'n gwnâi yn fwy na thal -
wrth floeddio yn ddiniwed
'Fy llun sy i ar y wal.'

Ond heno ar wal 'rysgol
rhown rywbeth bery byth;
rhown stamp anrhydedd ardal
i ddeuddyn yn ein plith.
Amlyga Roy a Rhoswen
rinweddau a phob moes;
mae'u henwau yn dynodi
partneriaeth gydol oes.

Gwir gymwynaswyr ffyddlon
dros bopeth fuont hwy;
o Login i Gwmfelin
gyflawnodd rhywrai fwy?
Dros iaith, a'n byw ddiwylliant,
dros les a hawliau'r dydd,
dros hawliau cymdeithasol,
a phopeth gorau'r Ffydd.

Bu Roy yn grwtyn yma
- yr ail yn nheulu'r Rhiw -
dilynodd lle bu'i dadau
ar feidyr dysgu byw;
diau y plannwyd ynddo
wir werthoedd yn ddi-ffael
a'i gwnaeth ymhen yr amser
yn gymwynasawr hael.

I'r Blaid a'i holl ymdrechion;
i'r Cyngor yn sir Gâr;
i gymdeithasau 'lusen
fe wnaeth yn fwy na'i siâr.
Digrifwr a storïwr,
diddanwr yn llawn bri,
a hwyl y Noson Lawen
a lywiau gyda sbri.

Fe lywiodd weithgareddau'r
ganolfan gyda sêl;
mae ddiflin waith arloesol
yma i'r neb a'i gwêl.
A phwy a all anghofio
y cyfeillgarwch triw
a roes mor gyfareddol
i'r anghymarol Huw?

I Ffynnon-wen daeth Rhoswen
yn ifanc yn ei rhawd;
athrawes gyda'r gore
mewn cyfnod digon tlawd.
A phan ddyrchafwyd hithau
yn bennaeth - dyna rôl!
chwyldrowyd addysg gynradd,
daeth angerdd yma'n ôl.

Brwdfrydedd ymgorfforai
fel bwrllwm gloyw'r nant,
a gwres ei phersonoliaeth
a ddenai serch y plant.

Does ryfedd fod y plantos
fu yma gyda hi
yn dal i sôn amdani:
ein Rhoswen, Rhoswen ni.

Deallus ac amryddawn;
mae'n sgolor ymhob dawn
o gyfansoddi cerddi
a 'sgrifau celfydd iawn.
Fe droes y reddf i sgwennu'n
gaffaeliad yn llawn fflach
wrth hel a nôl newyddion
ar glefrau'r Cardi Bach.

Do gyrodd am flynydde
y trên cymdogol braf
trwy ledi ei orwelion
tu hwnt i ddyffryn Taf
gan roi ar gof a chadw
hanesion llawn apêl
i'r werin hoff gymdogol;
a'r werin 'r oes a ddêl.

Ca'dd urddwisg wen yr orsedd
am wasanaethau mawr;
fe'i gwnaed hi'n llywydd parchus
mudiad Merched y Wawr.
Am oes o waith yn Ramoth
a'r Ysgol Sul lle bu,
yn iawn dyfarnwyd iddi
holl fraint y Fedal Gee.

I'r Hoelion Wyth mae'r diolch
am weledigaeth dda,
a'u gweithred mor ddigymar
ar noson hon o ha'
trwy roi ar wal yr ysgol
un plac a bery byth:
rhoi stamp anrhydedd ardal
i ddeuddyn yn ein plith.

Euros Jones Evans

Calfaria Login**Dydd Sul, Medi 18fed
am 2 o'r gloch**

*Oedfa i gofio am deuluoedd a
gollodd anwyliad yn ystod y
ddwy flynedd a hanner diwethaf*

Siaradwr gwadd:

Eitemau gan Beti a Sian a Corlan

Croeso cynnes i bawb

MERCHED Y WAWR

Cangen San Cler

Cafwyd prynhawn arbennig ar ddydd Sadwrn, Mehefin 11eg pan fu'r Gangen yn dathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r Gangen yn rhymer 1971-72. Penderfynwyd dathlu mewn Te Prynhawn a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgol. Addurnwyd yr ystafell yn bwrpasol a rhoddwyd trefniannau arbennig o flodau i'r byrddau gan Lilwen.

Croesawyd pawb gan y Llywydd, Annalyn Davies gan gynnwys, Jill Lewis, Llywydd Cenedlaethol. Yn anffodus roedd Jane Morgan, Swyddog Datblygu Rhanbarth Caerfyrddin a Lilwen, ein trysorydd weithgar sydd wedi gwneud cymaint dros y Gangen, yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch.

Offrymwyd gras gan Iona. Cafwyd te arbennig iawn wedi ei baratoi gan Sue a'i thim o'r Hen Ysgol a diolch iddyn nhw am y wledd.

Yn dilyn y te bu Nest, ysgrifennydd cyntaf y Gangen, yn sôn am ei balchder fod y Gangen wedi cyrraedd 50 mlynedd. Diolchodd am y cyfle rydyn ni wedi ei dderbyn ar hyd blyneddoddd hapus pan rydym wedi medru rhannu a mwynhau cwmni gyda rhai sydd â'r un diddordebau â ni.

Bu Annalyn yn olrhain faint sydd wedi digwydd ac wedi ei gyflawni ers sefydlu'r Gangen gyda'r aelodau yn cymryd rhan mewn pob math o weithgareddau yn lleol, yn Rhanbarthol a Chenedlaethol.

Bu Jill yn llongyfarch y Gangen ac yn sôn am rai profiadau mae hi wedi eu derbyn ac am ei phrosiect arbennig fel Llywydd Cenedlaethol.

Darllenodd Annalyn lythyr a dderbyniwyd oddi wrth Jane Morgan yn llongyfarch y Gangen ar ei gweithgaredd ac am gyrraedd y 50fed penblwydd.

Gwnaed cacen ddathlu arbennig gan Pat ac fe'i torrwyd gan Nest a Sally, dwy o aelodau gwreiddiol y Gangen. Offrymwyd llwnc destun i'r Gangen cyn mwynhau darn o'r gacen flasus.

Yn ystod y te gofynwyd i bawb oedd yn bresennol nodi ar bapur rai atgofion o'u hamser yn y Gangen. Bu Iona'n sôn am rai o'i hatgofion hi megis cystadlu mewn chwaraeon, Eisteddfodau ayyb, diddanu eraill a chlywed siaradwyr arbennig. Crynhodd Beti-Wyn yr atgofion a nodwyd gan yr aelodau a bu llawer o hwyl yn rhannu'r atgofion.

Roedd pob aelod wedi rhoi gwobr raffl ac elfen o aur ynddo ac felly derbyniodd pawb wobwr i fynd adre.

Gwnaed y diolchiadau gan Eileen a diolchodd i bawb oedd wedi cyfrannu at brynhawn ardderchog i ddathlu penblwydd y Gangen yn 50 oed.



Aelodau'r gangen yng nghwmni Jill Lewis, Llywydd Cenedlaethol



Pat gyda'r gacen roedd wedi ei gwneud i Ddathlu Aur y gangen



Nest a Sally, aelodau gwreiddiol y gangen, yn torri'r gacen.



CORNEL Y DYSGWYR

gan *Albie Abbot*

Shwmae bawb, gobeithio bod chi'n cadw iach. Yn anffodus mae'r Covid ar gynydd unwaith eto yn yr ardal hon gyda sawl un o'n cymdogion yn dioddef.

Dwi wedi ffeindio dau beth i chi y mis hwn.

Pob lwc a joiwch yr haf,

Albie

GEIRFA: Tro

troellog, droeon, trobwynt, troedigaeth, troedig

Rydwi i wedi eu gweld nhwyn ddiweddar, o leiaf bedair neu bump o weithiau.

Awn i byth i weld y ffilm honno eto - roedd yn

Mae lon gulyn arwain at y ty.

Bu'r penderfyniad i ddysgu Cymraeg ynyn fy mywyd.

Cafodd William Williams, Pantycelyntra'n gwrandao ar Hywel Harris yn pregethu.

Newidiwch y gair mewn print bras a'i roi yn y bwlch yn y frawddeg

CYSTADLU Ar ddechrau'rroedd 200 o gorau.

NERFUS Ydy'rgymaint mewn gem fawr?

LLE Mae nifer o drigolionyn chwilio'r afon.

GWYBOD Apeliodd llefarydd am unrhyw

COFIO Roedd yr olygfa ar y dyffryn yn

UCHEL Ym mhenr cwm, sythodd y llwybr

SEFYLL Llai na chanllath oddiwrthyf,merch

BLINO Roedd e'n teimlo'n

CARREG Roedd y llwybr yn un

BEIRNIADU Ydy'ryn deg?

CYFRINACH Mae'n fater cwbl

IACH Sut mae'rerbyn hyn?

GWLAD Daeth rheilffordd Tal-y-llyn yn ail trwyPrydain.

MEDDWLi ddim am hynny

ASGWRN Gwelir dros gant oyn yr arddangosfa

DARGANFODmorfil yn Aberddawan.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen,
Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn mwynhau'r tywydd braf yr ydym wedi ei gael yn ddiweddar. Croeso i'r rhai ohonoch sydd wedi ymaelodi â'r Clwb 200 oddi ar y rhifyn diwethaf a chroeso cynnes i'n haelodau newydd hefyd. Braf yw gweld cymaint wedi ymaelodi eleni'n barod.

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-

Mal ac Enid Edwards, 22, New Road, Hwlfordd

Heulwen Reese, Rose Brook, Pwll-Trap, San Clêr

Eleri Jones, Glenview, Llanglydwen
Y Prifardd Eirwyn George, Delfan, Maenclochog

Maureen George, Delfan, Maenclochog

Angela Murray, 2, Piccadilly, Llanboidy

Tegwyn Evans, Heulwen, Saron, Llandysul

Elda Evans, Heulwen, Saron, Llandysul

Lynn ac Ann Jones, Hafan Deg, Rhiw'r Orsaf, San Clêr

Fanw Davies, 2, Rhos Wyn, Efailwen

Mared a Heledd Williams, Bryneithin, Bryn Iwan

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Mehefin:-

478 - Cynwyl Davies, Ardwyn, Pwll-Trap - £20

228 - Margaret Rees, 1 Rhydygors, San Clêr - £10

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r Cardi Bach ac i'r Clwb 200.

Cadwch yn ddiogel, Rhian

Preselstorage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Elfelfre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigi@hotmail.com



Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

Creu campwaith

Cadair Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022

Llongyfarchiade mowr i Rees Thomas (Llysmyrddin gynt), un o aelodau Capel Calfaria Login, ar ddylunio a chreu cadair Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion. Ma Rees wedi creu campwaith ac hyderwn y bydd teilyngdod yn Nhregaron ar ddechre mish Awst - ac y gwelwn y bardd buddugol yn eistedd yn y gadair, yn heddiu yr Eisteddfod. Da iawn Rees, gwyh iawn, ma pawb yng Nghalfaria Login a'r cyffini yn falch iawn ohonot. Dyma, yng ngeirio Rees, sut aeth ati gynllunio a gweithio'r gadair. *E.L.*



“Pwyntiau pwysig yr oeddwn yn eu ystyried wrth gynllunio'r gadair oedd - ei bod yn ysgafn, yn fodern ac fe allai gael ei defnyddio. Hefyd y dylai adlewyrchu elfen neu elfennau o Geredigion ac ar yr un pryd y byddai yn edrych yn urddasol ar lwyfan yr Eisteddfod.

Ar ôl llawer o frasluniau yn fy meddwl, ac ar bapur, daeth y syniad o afon Teifi, ac mae

llif yr afon yn cael ei adlewyrchu yn yr ochr olwg. Os edrychwch ar fap OS fe welwch fod y corneli i gyd i'w gweld yn yr afon o fewn hanner milltir i faes yr Eisteddfod. Rhaid felly oedd gwneud llun llawn maint o'r ochr olwg ar fwrdd MDF er mwyn torri allan siapau'r coesau, breichiau a'r gwahannol rannau a'i copio allan ar y pren.

Penderfynais mae pren derw fyddai yn addas, ac yr oedd yn bwysig ei fod wedi ei sychu mewn odyn er mwyn cael y lleithder lawr i 11%. Rhaid oedd cael help i blaenio'r pren ac hefyd i dorri'r morteisi. Yn ffodus yr

oedd un o fy nghyn ddisgyblion, Aled Richards yn barod iawn i helpu, ef wnaeth baratoi'r pren ar gyfer y cefn â'r set. Euthum ati i dorri'r darnau ar gyfer y coesau a'r breichiau, llifio'r tynau a'u gludo at eu gilydd cyn torri siapau'r ochrau. Bu cryn drafod ac arbrofi ar led y sêd ac yma y bu fy ngwraig o gryn gymorth, ar wahan i'w help ar hyd y daith. Wedyn llifio uniadau'r pump darn croes cyn eu cydosod a'u gludo. Roedd hynny yn anodd rhag ofn i'r glud sychu cyn eu crampio yn dynn at eu gilydd.

Yr oedd yn amlwg fod angen cynllun priodol a lleol ar gyfer y cefn gan gynnwys y nod cyfrin. Felly ar ôl ystyried, penderfynwyd y byddai syniad Wynne Mel o lun y barcud yn briodol iawn gan mai yn ardal yr Eisteddfod oedd y ddau bâr olaf cyn eu ail gyflwyno. Er parch i'r noddwyr 'Cylch Cinio Aberystwyth', cynhwyswyd Ceredigion mewn llythrennau 'Coelbren y Beirdd'. Mae cerrig yr Orsedd sydd yng nghastell Aberystwyth – un o bob sir o Gymru, ag enwau'r siroedd wedi eu cerfio arnynt yng ngwyddor Iolo Morgannwg. Mae'r nôd cyfrin ac enw'r sir wedi eu gwneud o bren derw'r gors (bog oak) a ddaeth o Gors Fochno ger Y Borth. Yn ôl arbenigwyr yn y Brifysgol mae'r pren o leiaf pedair mil o flynyddoedd oed.

Ar ôl gorffen yr adeiladwaith cafodd y gadair dair cot o 'Danish oil', ac wedyn ei llyfnhau â lathru a chwy'r gwenyn. Gosodwyd plac 'Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022' ar y reilen flaen.

Diolch i Gylch Cinio Aberystwyth am ofyn i fi gynllunio a gwneud y gadair. Gwerthfawrogi cefnogaeth Aled, Wyn Mel a Mary. Mae barn cyfeillion a chydabod a alwodd i'w gweld o galondid mawr. Gobeithio y bydd yna enillydd”.

Cyfraniadau

John, Alyson a Mark, Lanteg, Llanboidy	£5
Mair a Ronnie Morgan, Llanboidy	£10

Diolch yn fawr

Pethau Olyv

**Ffasiynau, gemwaith
ac ategolion merch**

Mermaid Buildings
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230590
info@pethauolyv.co.uk

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

J. B. OWEN

LLOGI PEIRIANNAU

**Golygfa
Llandissilio**

Ffôn: 01437 563693
07966 549623

Colofn Garddio

gan W J Davies

Dyma fi, ar y 5ed o fis Gorffennaf, yn eistedd lawr i ysgrifennu ac mae'n ddiwrnod cymylog tawel heb law na gwynt, ac mae hyn yn hyfryd i mi, oherwydd rwyf wedi plannu allan amryw o blanhigion cennin. Roeddwn wedi eu plannu mewn rhych nôl yn y gwanwyn, felly mae rhai diwrnodau heb haul yn gymorth i'r gwreiddiau gael ail-afael yn y pridd a thyfu drachefn. Rwyf wedi gwneud hyn ers gallaf gofio, ac rwy'n credu fod y genhinen yn fwyd iachus, a'r hyn sy'n hynod, dim ond wythnos yma cawsom y pecyn diwethaf o'r rhai dyfwyd llynedd allan o'r rhewgell, a gyda lwc, cyn y Nadolig, bydd rhai eleni eto yn y rhewgell.

Mae'r tywydd eleni wedi bod yn hynod o sych, heblaw am y cawodydd gawsom ym mis Mehefin. Duw a'n helpo ni, mae dail y coed gwyllt wedi cymryd bron yr holl law cawsom mewn drwy'r dail, ac yn wir, maent yn edrych yn llewyrchus iawn ar hyn o bryd, ond mae angen tipyn mwy o law yn fuan. Os oes gennych lwyni sydd yn blodeuo yn y gwanwyn, fel "Camelia's", gwnewch eich gorau i ddyfrhau eu gwreiddiau o leiaf bob yn ail ddydd am y ddau fis nesaf. Os na wnewch hyn, rwy'n ofni ni fydd blodau i gael gwanwyn nesaf, ac mae hyn felly yn bwysig i bob math o goedydd blodeuog a'u tebyg. Wedi dweud hyn, mae wir yn bosib y cawn fis Awst gwlyb iawn, a gall Awst fod y mis glypach o'r flwyddyn gyfan, a gallaf ond gobeithio mae felly bydd hi eleni.

Yn yr ail wythnos o fis Awst byddaf yn ceisio hau pecyn bach a hadau bresych, a gyda lwc, byddant wedi egino a thyfu digon i'w plannu allan erbyn diwedd mis Medi. Mi dyfai hanner dwsin yn y tŷ gwydr er mwyn eu defnyddio dros y gaeaf, a'r gweddill, byddaf yn eu trawsblannu yn yr ardd. Erbyn gwanwyn nesaf fe fydd yn bleser eu gweld, ac yn fwy o bleser fyth eu bwyta ar blat cinio dydd Sul. Cofiaf pan yn blentyn, roedd gan fy nhad un cwsmer o ardal trefol Glyn Nedd, a oedd yn prynu cymaint a hanner can mil o fresych i werthu yn ei siop i drigolion y dre hon yn unig.

Nôl at y tywydd - oherwydd y sychder, mae tymheredd ein daear yn oerach nac arfer a hefyd mae'r gwynt wedi bod yn y gogledd bob nos gydol y flwyddyn, felly mae

ein nosweithiau wedi, ac yn parhau i fod yn oerach na ddylai fod. Oherwydd hyn, er y gwres dyddiol, mae tymheredd nosol rhy oer i'r malltod (blight) ddatblygu ar ein tato. Mae rhaid i'r tymheredd codi tua 15° selsiws gydol y nos i'r malltod i ffynnu, ac oherwydd hyn mae gwrys y tato yn weddol iach eu golwg. Os oes tato gennych yn tyfu ac yn glir o'r malltod, mae nawr yn werth eu chwystrelli, â'r ffordd orau a rhataf yw defnyddio llaeth fres llawn braster. Cymysgwch un peint o laeth ffres gyda thri pheint o ddŵr gloyw a gwnewch hyn yn hwyr y prynhawn. Yna, tra bydd yn nosi a'r dail tato yn cau lan, gwnewch yr un peth eto er mwyn gwlychu'r dail oddi tanynt. Credaf yn gryf bydd eleni yn flwyddyn dda am gnydau gwyh o dato iach. Pob lwc a nerth i arddwrn pob garddwr a defnyddiwr hwn hefyd i osgoi malltod ar y tomatos yn y tŷ gwydr.



Coginio

Winnie James Phillips

PASTAI FFOWLYN a CHENNIN

Cynhwysion

- 4 sleisen o facwn wedi ei dorri'n ddarnau
- 1 owns o fenyn; Halen a phupur
- 3 Cenninen wedi eu torri; 2 Llwy fwrdd o olew
- 4 Brest ffowlyn wedi eu torri'n ddarnau

DULL

1. Ffreiwch y bacwn, ychwanegwch y menyn a'r cennin a'u coginio am 5 munud.
2. Tynnwch o'r ffreipen a rhoi'r cyfan mewn dysgl.
3. Rhowch yr olew yn y ffreipen a coginiwch y cig ffowlyn nes bydd yn frown.
4. Rhowch yn y ddysgl a'i gymysgu gyda'r bacwn a'r cennin.

SAWS CAWS

1. 2 owns o fenyn; 2 owns o fflwr plaen
2. 2 cwpanaid o laeth; 1 clof o garlleg
3. 1 cwpanaid o gaws wedi ei ratio.

DULL

Toddwch y menyn, ychwanegwch y garlleg a'r fflwr a'i dwymo.

Yn araf, ychwanegwch y llaeth a'i droi nes ei fod yn tewhau.

Ychwanegwch y caws nes bydd wedi toddi.

Rhowch ar ben y cyfan yn y ddysgl a'i bobi am awr.



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE



Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr



ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd Llangynin
San Clêr SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.post:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI COED

EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED



FFÔN:-
01994 240857



Gwibdaith Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli

Ar ddydd Mawrth, 14eg Mehefin ar ddiwrnod braf o haf cawsom daith bleserus i Abergwaun ac i ardal Pencaer yng ngogledd Sir Benfro dan arweiniad y Parchg Wynn Vittle, oedd yn ei elfen yn ein tywys ar daith o gwmpas ardal ei gynefin. Rhannodd gyda ni hanesion difyr am ei gefndir a'i blentyndod yn yr ardal. Cychwynasom yng Nghaefyrddin, ac wedi teithio ar draws gwlad i Boncath yn Sir Benfro cawsom goffi yn nhafarn Trewern yn Nanhyfer, yna ymlaen i Abergwaun gan weld tapestri enwog Glaniad y Ffrancod yn Neuadd y Dref a'r ganolfan Ein Hanes y drws nesaf. Wedi cinio ar y ffyrnt wrth y môr yn Wdig, aethom ymlaen i ymweld â hen Eglwys Geltaidd Llanwnda, eglwys sy'n dyddio o'r chweched ganrif gan sylwi ar y ffenestr i'r gwahangleifion oedd yn medru edrych i mewn o'r tu allan ar yr allor, ynghyd â gweld yr hen groesau gwahanol a'r ddau gloch i gofio am Sant Padrig, ar ochr y môr, a'r llall i Dewi Sant, ar ochr y tir. A gweld hefyd yr hen gartref a'r aelwyd lle maged Wyn, cartref braf, ac mewn dyddiau a fu oedd yn hen ficerdy i ficeriaid Eglwys Llanwnda.



Yna aethom ymlaen i fferm Bristgarn i weld y cloc hanesyddol gyda thwll y bwled yn ei ddrws oherwydd ymosodiad y Ffrancod, a diolch i Raymond a Valerie Llewelin am eu croeso ac am agor eu cartref i ymwelwyr dros y blynyddoedd. Yn ein blaenau wedyn

i fwynhau yr arfordir a golygfa o oleudy Strwmbwl cyn mynd heibio ochr ogleddol y Garn Fowr ac yna oedi uwchben y 'dwnshwn' ym Mhwlleri wrth garreg coffa y bardd Dewi Emrys gan wrando ar y Parchg. Beti-Wyn James yn darllen, yn nhafodiaith Shir Benfro, ddetholiad o'r gerdd *Pwllleri*, cerdd gyda'i glo trawiadol 'A thina'r meddilie sy'n dwad ichi pan fo chi'n ishte uwchben Pwllleri.'

Egwyl bach wedyn am de, hufen iâ, neu deishen yng ngaffi Melin Tregwynt, browsio yn y siop, a mor falch oeddem o ddeall bod y gweithwyr, drwy'r ymddiriedolaeth newydd a sefydlwyd, bellach yn ei berchen ac yn ei redeg. Teithiasom yn ôl wedyn i westy Llwyngwair ac wedi cael cyfarfod busnes i wneud y trefniadau ar gyfer y tymor wedi'r haf, mwynhau swper cynnar blasus yng ngwmni hwyliog ein gilydd. Diolch i Eurig Williams, gyrrwr y bws mini ar ran cwmni Brodyr Williams Felingwm am ein cludo'n ddiogel pob cam, ac am gwmni hwyliog a chymdeithas gynnes ein gilydd ar hyd y dydd. Roedd ein diolch yn fawr i'r Parchg Tom Defis am gynorthwyo gyda'r trefniadau ac i Wynn Vittle am ein tywys ar daith mor odidog yn ardal ei febyd. 'Diwrnod i'r Brenin' yn wir a chlod i'n Creawdwr am wlad ac amgylchfyd mor hardd.

Emyr Gwyn Evans, Ysgrifennydd



**Cymdeithas Capeli Bro
Hywel Dda**

Taith Gerdded

**Bore Dydd Sadwrn
24ain Medi 2022 am 10 yb**

**Dechrau yng Nghapel Cwm Miles a gorffen
yng Nghapel Calfaria, Login**

Yr elw i'w rannu rhwng:

Clefyd y Siwgr

Ambiwylans Awyr Cymru

Meddygfa Preseli, Crymych

C J Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar
unrhyw achlysur.

**Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.**

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard

San Clêr

Ffôn: (01994) 231390





MAE EISTEDDFOD YR URDD YN DOD I SIR GAERFYRDDIN YN 2023!

Dewch i gefnogi a mwynhau yr Ŵyl Gyhoeddi:

Sadwrn Medi 17eg - Sadwrn Medi 24ain 2022

**WYTHNOS O WEITHGAREDDAU I BAWB
RHOWCH Y DYDDIADAU YN EICH DYDDIADUR!**

Cyfle i bob Ysgol, Adran, Aelwyd a mudiadau eraill i orymdeithio gyda Mr Urdd drwy strydoedd Caerfyrddin a Llanymddyfri a mwynhau'r llwyth o weithgareddau yn ystod y prynhawn a'r nos.

DYDD SADWRN MEDI 17eg

- GORYMDAITH A GWEITHGAREDDAU (TREF CAERFYRDDIN)

- 10.30y.b: Ymgynnull yn Neuadd y Sir
- 11.00: Gorymdaith drwy'r dre ac i'r parc.
- 12.00 - 2.00: Gweithgareddau o bob math yn y parc
 - Gweithgareddau o bob math yn y parc - DJ a cherddoriaeth byw, stondinau, Siani Sionc, chwaraeon, dawnsio, peintio wynebau a mwy
- 7y.h: Gig - lleoliad i'w gadarnhau
- 8y.h: Noson gyda bandiau lleol - Clwb y Cwins, Caerfyrddin (Trefnir gan Bwyllgor Apel Caerfyrddin)


DYDD SADWRN MEDI 24ain

- GORYMDAITH A GWEITHGAREDDAU (TREF LLANYMDDYFRI)

- 1.30y.p: Ymgynnull yn y maes parcio
- 2-5y.h: Gorymdaith o amgylch y dre a gweithgareddau amrywiol yn Sgwâr y Dre
- 7y.h: Gig - Y Welsh Wisperer a Baldande - Clwb Rygbi Llanymddyfri

LLWYTH O WEITHGAREDDAU DRWY GYDOL YR WYTHNOS

**CADWCH LYGAD AR Y DUDALEN
FACEBOOK AM FWY O FANYLION!**



SAN CLER

Penblwydd Hapus iawn i Mrs Phyllis Price, Lon Hafren, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Fehefin 27ain.

Dymunwn yn dda i Lloyd a Susan Williams sydd wedi symud nôl i San Cler i fyw a chartrefi ym Mhen y Ffordd.

Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd Hapus iawn yn 90 oed i Mrs Phyllis Price. Mam, mam-gu ac hen fam-gu arbennig iawn. Am garreg filltir! Cariad mawr iawn wrth y teulu a ffrindiau oll. xx

Llun: Cefin Vaughan

PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Rachel Pickersgill (Penybanc) ar ei phriodas â Karthi Srikanthan. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys San Pedr, Caerfyrddin ar Fehefin 4ydd.

....hefyd, i Lowri, merch Geraint a Ruth Jones, Llwyn yr Eos ar ei phriodas â Will Rees ym Methlehem Newydd ar Fehefin 11eg.

Dymunir penblwydd hapus i Eryl Phillips, Garreglwyd, a oedd yn dathlu penblwydd arbennig ar Fehefin 14eg.

Bethlehem Newydd

Dymunwn yn dda i Eluned Davies, Troedyrhiw sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Mae'n dda clywed fod Geraint Phillips, Myddfai, ar wellhad, yntau hefyd wedi derbyn triniaeth.

Cafwyd oedfa fendithiol dan ofal Alun Lenny ar Fehefin 12fed.

Trefn Suliau Awst a Medi:

Awst 28ain: Oedfa Gymun yng Ngibeon am 10.30 y.b. dan ofal y Gweinidog.

Medi:

4ydd: Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd am 10y.b. dan ofal y Gweinidog.

11eg: Oedfa dan ofal Miss Delyth Jones am 10y.b.

18fed: Oedfa Gymun yng Ngibeon am 10.30y.b. dan ofal y Gweinidog

25ain: Oedfa dan ofal Mrs. Annalyn Davies ym Methlehem Newydd am 10y.b.

BLAENWAUN

Cydymdeimlo. Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Highlands, Blaenwaun yn dilyn marwolaeth Derick Davies. Meddylwn am ei wraig Irene, sydd yng nghartref gofal Brynderwen, Tregynnwr a'r plant Llinos ac Alan a'u teuluoedd.

Moriah

Diolch i'r Parchedig Dorian Samson am ei wasanaeth yn y Cyrddau Blynnyddol ar Sul, 26ain Mehefin ac i Arwel Evans am ei wasanaeth ar 17eg Gorffennaf.

Trefn mis Medi / Hydref

Ar Sadwrn, 10fed Medi am 1.30 o'r gloch, yng nghapel Bryn Iwan cynhelir oedfa sefydlu y Parchedig Gareth Ioan yn weinidog ar Eglwys Nanternis, Bryn Iwan, Blaenycod a Moriah. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Medi 11eg: Oedfa undebol yng nghapel Blaenycod am 2 o'r gloch gyda'r Parchedig Gareth Ioan yn gwasanaethu.

Medi 18fed: Cymun am 2 o'r gloch. Parch. Tom Defis Hydref 2il. Cynhelir Oedfa o Fawl yng nghapel Nebo yn y prynhawn. Oedfa cylch y Gymanfa Ganu yw hon. Gweler rhagor o fanylion yn y rhifyn hwn o'r Cardi Bach.

Dymuniadau gorau i un o'n haelodau hynaf sef Tegwen James, Penybryn, sydd yn dathlu ei phenblwydd ar 14eg Awst. Mae'r aelodau yn dymuno penblwydd hapus i ti ac yn diolch am bopeth wyt yn gwneud i'r eglwys.

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...

01994 231749

post@eaglesigns-wales.co.uk

www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS

Dandre
Llanboidy



Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL

 **Monraker** 

Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"

 **Tir y Bont** 
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf

Ffôn: 07837 089648

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedigion Judith Morris, Geoffrey Eynon a Mrs Annalyn Davies am eu gwasanaeth dros yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Medi 11eg: Euros Jones Evans - Cymun am 10.30
25ain: Alun Lenny - Cwrdd Diolchgarwch am 2.00
Hydref 9fed: Annalyn Davies - Cymun am 2.00
30ain - Arwel Evans - Cwrdd am 10.30

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Gareth Griffiths, Waunfach sydd wedi cael strôc yn ddiweddar. Mae Gareth yn Ysbyty Llwynhelyg ac yn cryfhau'n raddol. Dymunwn wellhad buan hefyd i Mary Llewellyn, Garth sydd adref o'r ysbyty erbyn hyn.

Penblwydd hapus

Dymunwn benblwydd hapus i Mrs Mefin Lewis, Huan Aur fu'n dathlu ei phenblwydd yn 85 oed yn ddiweddar.

Cartref newydd

Pob dymuniad da i Ellis a Gareth Evans yn eu cartref newydd ym Maes y ffrwd. Wedi blynyddoedd o waith caled, maent wedi symud i fewn. Pob hapusrwydd iddynt.

Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen

Pleser oedd croesawu'r gymuned eang i'r Ganolfan ar nos Iau, 30ain Mehefin, pan ddadorchuddiwyd plac i gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniad arbennig Roy a Rhoswen Llewellyn. Daeth tyrfa dda ynghyd a braint oedd eu croesawu a chynnig lluniaeth.

Diolch i bawb fu'n brysur yn paratoi mewn unrhyw fodd. Noson i'w chofio a hyfryd oedd cynnal gweithgaredd yn y Ganolfan am y tro cyntaf ers y COVID. Bwriedir cynnal cyfarfod o'r pwyllgor ym mis Medi i drefnu gweithgareddau. Cewch rhagor o fanylion gyda'r ysgrifennydd.

Cylch Meithrin Ffynnonwen

Cylch Meithrin Ffynnonwen wedi cael mis prysur iawn.



Emma o 'Oriell Gallery' wedi bod yn gwneud gweithgareddau celf gyda'r plant

Mabolgampau



Plant yn mwynhau'r mabolgampau a chriw da o rieni, ffrindiau a pherthnasau yn eu cefnogi.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymch

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

CWMBACH

Llongyfarchiadau i Eleri a Martin Hughes-Gage, Tŷ Croes ar enedigaeth ŵyr, ganwyd mab i Sion ac Alex ac wedi ei enwi yn Ioan. Dymuniadau gorau iddynt.

LLANBOIDY

Trinity

Anrhydeddu dwy organyddes.

Roedd dydd Sul cyntaf mis Gorffennaf yn ddiwrnod arbenig yn y Trinity, Llanboidy.

Yn ystod yr oedfa cafwyd cyfle i ddiolch i ddwy organyddes am flynyddoedd maith o wasanaeth.

Mae Merle Evans wedi bod yn chwarae'r organ yn y capel ers 73 o flynyddoedd. Hefyd mae wedi dysgu cenhedlaethau o blant i chwarae'r piano ar hyd y degawdau. Mae hi yn parhau i chwarae yn y capel ac yn ogystal mae'n cynorthwyo yn yr Eglwys ac yn yr Ysgol Gynradd pan fydd angen.

Mae Bethan Williams wedi bod yn chwarae'r organ yn y Trinity ers 43 o flynyddoedd. Dysgwyd Bethan gan Merle ac mae hi hefyd wedi bod yn hynod o ffyddlon i'r capel. Erbyn hyn mae Bethan wedi symud i Abertawe i fod ar bwys y merched.

Diolch i Merle a Bethan am wasanaeth mor arbennig i'r Trinity, Llanboidy ar hyd y blynyddoedd.

Diolch i un o aelodau'r capel sef Wenfys Rees am baratoi y blodau hyfryd.



Merle a'r teulu



Bethan a'r teulu



Merle Evans
a Bethan
Williams

Sefydliad y Merched

Ar Mehefin 9fed daeth yr aelodau ynghyd i'r Neuadd, gyda'r llywydd, Denise Harris yn y gadair. Bu'r aelodau yn trafod busnes a da oedd clywed fod tîm cwis Llanboidy wedi dod yn bedwerydd allan o 55 o dimau yng ngwis y Sir. Bydd y Clwb Chwaraeon yn cynnal carnifal ar Awst 13eg, a merched y Sefydliad bydd yn gyfrifol am y te a'r lluniaeth. Croesawodd y llywydd un o'r aelodau, sef June Wells a bu'n rhoi hanes nyddu, sut mae'n magu defaid, yn eu cneifio ac yn nyddu gyda throell. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol iawn.

Sioe y Sir

Llongyfarchiadau i Norah Heseltine am ennill y Rhuban Glas yn yr adran llenyddiaeth am ei brawddeg allan o'r

 **the LONDON HOUSE**
butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

 **GERALD BLAIN**
CYMDEITHRION CYF

15 Stryd St Ioan, Hendygywn,
Sic Gaeafyddin, SA34 0AN

01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

 @GBAASSOCIATES

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

gair 'GWAWR', ac mae'n cael cadw tarian goffa Sylvia Rees am 5 mis. Llongyfarchiadau hefyd i Denise Harris am ennill y wobr gyntaf am ei gwin, ac i Valerie Dixon ar ennill yr ail wobr am ysgrifennu limerig.



Mrs Norah
Heseltine
gyda
Tharian
Goffa Sylvia
Rees

Penblwydd Hapus

Penblwydd Hapus a dymuniadau gorau i Wenfys Rees, Lanteg a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar Awst 1af.

Diolch

Dymuna Dewi, Mair a Ronnie ac Eifion a Violet ddiolch i bawb am y negeseuon, cardiau a'r galwadau ffôn wedi colli brawd a brawd-yng-nghyfraith annwyl sef Trefor Griffiths, Llanbariets. Maent hefyd am ddiolch i'r Parch. Guto Llywelyn am wasanaeth barchus ac i'r archgludwyr, sef Dai Phillips, Sam Pask, Huw Thomas, Gerwyn Reynolds, Dai Drake a Kevin Morris. Diolch i Stuart Booth o gwmni Peter Evans, gyda chymorth Hywel Thomas am drefnu'r angladd gydag pharch ac urddas. Diolch hefyd i Delyth Morris am ddosbarthu'r taflenni ac i Eifiona Lewis am chwarae'r organ ac i Michelle Phillips a Mandy Smith am y blodau. Diolch yn fawr i bawb.

Clwb Cymdeithasol Llanboidy

Helfa Drysor

Cynhelir Helfa Drysor ar nos Wener, Gorffennaf 29ain am
6 o'r gloch, dechrau a gorffen yn y clwb cymdeithasol.
Croeso cynnes i bawb.

Carnifal

Cynhelir y carnifal blynyddol ar brynhawn Sadwrn, Awst 13eg am 4 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

LLANGYNIN

Pen-blwyddi arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Ken Harris, Gelli Aur, a fydd yn dathlu ei ben blwydd arbennig yn 80 oed ar Awst 6ed ac i Marian Glyn Thomas, Llanddwyn, a fydd yn 70 oed ar Awst 26ain. Pen blwydd hapus a phob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

Gwellhad buan

Pob dymuniad da i Sally Knightley, Cartref, sydd wedi derbyn clun newydd yn ystod y mis diwethaf. Da gweld bod y llawdriniaeth wedi bod yn llwyddiannus a bod Sally adre ac yn cryfhau erbyn hyn!

Mewn cydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth June Martin, Brychan, yn 83 oed. Nid oedd June wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ystod y blynyddoedd diwethaf a threuliodd flynyddoedd olaf ei bywyd yng Nghartref Gofal Woodfield yn Arberth.

Dymuna Jim ei gŵr, Richard y mab a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddan-goswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a mam-gu annwyl. Diolch am bob anrheg, cerdyn, galwad a phob ymweliad, maent oll wedi bod yn gysur mawr iddynt.

Diolch arbennig i Mr. Michael Ashbridge am arwain gwasanaeth urddasol a phersonol, ac i'r ymgymerywyr W&MJ Rossiter am eu trefniadau gofalus a thrylwyr. Diolch hefyd i Sue a Philip Hughes a'r staff am baratoi'r te angladd yn Yr Hen Ysgol, Sanclêr. Mae'r teulu yn gwerthfawrogi y gofal ardderchog gafodd June gan holl staff Woodfield yn ystod y pum mlynedd a hanner diwethaf. Diolch i'r holl gymdogion a ffrindiau a ddaeth i dalu'r deyrnged olaf i June yn Amlosgfa Parc Gwyn a hefyd i bawb a gyfrannodd er budd Cartref Gofal Woodfield er cof amdani.

DAVID HARRIES
& Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street,
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf

**"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"**

**PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH**

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk



JTL PLYMIWR

Arbetsdagarna: ytterstida och deltid tjänster

- Arbetsdagarna ytterstida och deltid tjänster
- Arbetsdagarna ytterstida och deltid tjänster
- Arbetsdagarna ytterstida och deltid tjänster
- Arbetsdagarna ytterstida och deltid tjänster
- Arbetsdagarna ytterstida och deltid tjänster

00000 000000 00000 000000

www.jtlplymiwr.se

EFAILWEN

Graddio



Llongyfarchiadau i frawd a chwaer sef Gwyndaf a Nia Haf Lewis, Bro Beca ar raddio eleni. Nia wedi graddio o Brifysgol Bangor mewn cwrs Meistr mewn Polisi a Chynllunio Ieithyddol a Gwyndaf wedi graddio o Goleg Sir Gâr gyda Thystysgrif Ol-raddedig mewn Addysga Hyfforddiant Ôl-orfodol (PGCE).

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Oherwydd salwch, methodd Mr. Alun Lenny a dod i gynnal oedfa gymun ar Sul, Gorffennaf 3ydd.

Cynhaliwyd y gwasanaeth ar Sul, Gorffennaf 10fed gan Y Parchg Huw George.

Oedfaon mis Medi

4ydd: Mr. Hedd Ladd-Lewis - 10:30

11eg: Parchg. Huw George - 2.00

18fed: Oedfa arbennig yng Nghalfaria, Login am 2 o'r gloch i gofio am deuluoedd a gollodd anwyliad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Bu Wyn Evans yn cynrychioli Ramoth yng Nghyfarfod Blyneddol Undeb Bedyddwyr Cymru a gynhaliwyd yn Haliwell, Caerfyrddin.

Anrhydeddu. Llongyfarchiadau i Roy a Rhoswen Llewellyn sydd wedi cael Plac wedi ei osod yng Nghanolfan Ffynnonwen, i ddiolch am flynyddoedd o waith yn y gymuned. Bu nifer o aelodau Ramoth draw yn y noson arbennig ar nos Iau, Mehefin 30ain. Bu S4C yn ffilmio yn Ramoth a bu Wyn Evans yn talu teyrnged i'r ddau ar ran yr eglwys. Gwelwyd y rhaglen ar HENO.

MEIDRIM

Henoed

Daeth 26 o aelodau ynghyd i fwynhau Tê Mefus blasus dros ben yng Nghaffi Beca ar Orffennaf 5ed. Roedd y te wedi ei baratoi gan Robert James a'i staff. Offrymwyd gras gan Meirion Morris. Roedd y bwyd yn fendigedig a chawson amser da gyda'n gilydd.

Croesawodd Glyn James, aelod newydd sef Sara Ellis.

Cawsom drafodaeth fer am y wibdaith i Lannau Aberdaugleddau. Bydd y daith yn cymryd lle ar Awst 2il - bws yn gadael maes parció Meidrim am 1 y.p. Ar y ffordd adre, byddwn yn galw am bryd o fwyd yn Nantylfin.

Yn rhoi raffl ar y diwrnod - John Lewis, Sheila Jones, Doreen Thomas a Steph Davies.

RHYDYCEISIAID

Pulpud. Hyfryd oedd cael gwasanaeth y Parchg Guto Llywelyn yn oedfa'r Cymun ar Sul, Goffenaf 3ydd. Diolch iddo.

Roedd yn bleser cael cwmni Dr Rhodri Evans, Maesyrhaf yn yr oedfa.

Marwolaeth. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Mr Trefor Griffiths, Llanbariets yng Nghapel Rhydyceisiaid ar ddydd Iau, Mehefin 23ain.

'Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Guto Llywelyn a'r organyddes oedd Mrs Eifiona Lewis. Diolch iddynt.

Roedd yno dyrfa lluosog, hyn yn dyst i'w boblogrwydd. Y Trefnwyr Angladdau oedd Mr. Stuart Booth (Peter Evans Funeral Directors) a gwnaed y gwaith gydag urddas.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mair a Ronnie Morgan, Eifion a Violet Griffiths, Dewi Griffiths a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth; hefyd y perthynasau yn Aberdaugleddau ac eraill.

Ysbyty

Mae Miss Gwennie Rees wedi treulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty ond wedi dod adref erbyn hyn.

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

CLOTH HALL LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221

Adeiladwyr

DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwys ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywn, Sir Gar. SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 Rhif Symudol: 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp **MASNACHWYR ADEILADU**

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbbuildingsupplies.co.uk

HENDYGWYN AR GAF

Tabernacl

Fe fu aelodau'r capel yn dewis diaconiaid newydd yn ddiweddar. Yn dilyn pleidlais ymhlith yr aelodau, etholwyd y canlynol (yn nhrefn y wyddor) i fod yn ddiaconiaid sef Neil Jenkins, Menna Lewis ac Eryl Rosser. Cafwyd gwasanaeth i'w comisiynu yn ddiaconiaid yn ystod oedfa Gymun dechrau Gorffennaf. Pob dymuniad da iddynt yn eu gwaith.



Ethol diaconiaid newydd - o'r chwith, Menna Lewis, Neil Jenkins ac Eryl Rosser

Mae tymor arall o Ysgol Sul wedi dod i ben. Aeth y plant i McDonalds newydd Sanclêr i gofnodi diwedd y tymor a chafwyd amser da gan bawb. Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ar ôl yr haf ym mis Medi.



Plant yr Ysgol Sul yn McDonalds, Sanclêr



Ar nodyn hapusach bu un o'n haelodau yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar sef Margarete Hughes. Llongyfarchiadau iddi a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.



Hefyd llongyfarchiadau a phob dymuniad da i un arall o'n aelodau sef Mathew James a fu yn dathlu ei benblwydd yn 40 oed ar ddechrau Gorffennaf.

O edrych ymlaen byddwn yn cynnal oedfa Gymun nesaf ar Orffennaf 31ain am 9.30. Ac ar Awst 7fed byddwn yn ymuno gyda'r gynulleidfa yn Eglwys y Santes Fair, Hendy-gwyn am 10.00 ar gyfer oedfa Wythnos Hendy-gwyn.

Bydd yna oedfa rhywle yn yr ofalaeth bob Sul yn ystod mis Awst. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno gyda ni unrhyw amser ar gyfer ein hoedfaon. Cysylltwch am fwy o fanylion.



EUROPA

FFASIYNAU GWALLT

Heol y Pentre, San Clêr

Mae yna groeso i'r gwŷr hefyd

Wendy, Dawn a Kirsty



NTH

Ffôn: 01994 230462

Cwmni Adeiladu

BURNS

Building Co



Rob a Liz Burns
Greenwood
Cold Blow
Arberth

Arbenigwyr mewn gwaith
GWYDR FFEIBR

Cysylltwch a ni os am greu neu atgyweirio
TO GWASTAD neu HAFAN

Ffôn: 01834 860686

ARWYDDION A DYLUO

BOOMERANG

SIGN & DESIGN

01239 832 014

sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO



Cylch Meithrin Hywel Dda

Cafwyd bore arbennig yn ddiweddar yn ymweld â Mrs Margarette Hughes fel syrpreis ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed!! Sefydlodd Mrs Hughes Ysgol Feithrin Hendygywn yn ei chartref nôl yn 1971. Roedd yn hyfryd ei gweld hi yn arwain y plant bach i chwarae yn yr un ardd lle roedd plant bach yr Ysgol Feithrin yn chwarae dros hanner can mlynedd yn ôl!!! Cafodd staff a phlant y Cylch Meithrin (a Dewin a Doti!!) amser bendigedig yn ei chwmni. Diolch yn fawr i chi Mrs Hughes am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd, pen-blwydd hapus iawn a phob dymuniad da. xx



Y plant yng nghwmni Margarette Hughes

Ffarwelio



Mae'r criw bach 'ma yn gadael Cylch Meithrin Hywel Dda ar ddiwedd tymor yr haf. Hwyl fawr Jack, Carwyn, Gruffydd, Madi, Lottie, Soffia a Tamsin! Pob lwc a phob hapusrwydd i chi gyd yn Ysgol Llys Hywel ym mis Medi. Mwynhewch!

Cymdeithas Genedlaethol Hywel Dda

Enillwyr gwobrau misol

Mehefin

!af. £50 - John Arfon Jones.
2ail. £40 - Robin Poore.
3ydd. £30 - Elfie Evans.
4ydd. £20 - Roy Adams.

Gorffennaf

!af. £50 - Nora Williams.
2ail. £40 - Ceirios Jenner.
3ydd. £30 - Islwyn Davies.
4ydd. £20 - Sian Elin

LLANDDEWI

Bethel



Llongyfarchiadau i Lowri a Wil Rees a wnaeth briodi yng Nghapel Bethlehem, Pwlltrap yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth bawb o Fethel.

Cynhaliwyd oedfa arbennig yn nhŷ Jane ac Owen Phillips yn ddiweddar i gofio am y diweddar annwyl Maisie Howells. Cafwyd prynhawn o ganu emynau Cymraeg a Saesneg ac roedd gwledd yn ein haros ar ôl yr oedfa. Codwyd swm sylweddol at achos da oedd yn agos at galon Maisie.



Oedfa o Fawl i gofio Maisie Howells

GWASANAETH CEIR HENDYGYWN

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb

Dai James - Steven Owens

Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH



Crefftau Cymreig

Gemwaith Rhiannon

Crisial Brenhinol Cymru

Crefftau Lleol

Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau

Crymych, SA41 3QF

FFÔN: 01239 831230



- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
 - Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
 - Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
 - Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn
- 1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Aeth aelodau Bethel a chyfeillion am drip arall, a Talacharn oedd y lleoliad ym mis Mehefin. Ar ôl cerdded tuag at y 'Boat House' cafwyd cyfle i gael paned a chacen mewn bwyty yn y pentref.



Trip i Talacharn

TRELECH

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Naomi Sillars, Clunblewog ar ei phriodas diweddar â Mr Tom Waldock yng Nghaerdydd a Sbaen. Mae'r ddau wedi ymgartrefi ym Mheniel ger Caerfyrddin.

Gwellhad buan i Mrs Rhiannon Thomas, Madox sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Penblwydd hapus iawn i Rhiannon hefyd ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Diolch yn fawr i Gyngor Bro Tre-lech am noddi Rhostio'r Mochyn ym Marc y Plwyf, Trelech i ddathlu Jiwbilŷ y Frenhines ar ddechrau mis Mehefin. Diolch i Mr Lloyd Howells a'r teulu am ei baratoi, ei gogino a'i weini.

Cynhaliwyd Mabolgampau Trelech ar nos Wener yr wythfed o fis Gorffennaf ar gae Ysgol Hafodwenog, y cyntaf ers 2019.

Diolch i bawb a wnaeth gefnogi, i'r swyddogion diwyd am eu paratoi trylwyr, i Mr Alun Williams Aberteifi (gynt o'r Mans) am fod yn lywydd y noson ac am ei rodd hael, i Mr Rhys Evans, Mr Gethin Page a Mrs Eirlys Phillips am fod yn feirniaid y mabolgampau ac i Mr Dorian Thomas a Mr Matthew Goodman am fod yn ddechreuwyr penigamp. Diolch hefyd i Ysgol Hafodwenog am gael ddefnyddio'r cae.

Pwyllgor Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023

Ardaloedd Meidrim, Alma, Penybont, Talog a Threlech

Medi 23ain - Ffair Gyhoeddi Mr Urdd a Noson Goffi yng Nghanolfan Alma o 6 tan 8 o'r gloch.

Hydref 28ain - Noson Bingo - Neuadd Meidrim

Tachwedd 25ain - Noson Lawen - Neuadd Bronwydd Rhagfyr(dyddiad i'w gadarnhau) Taith Tractorau

PENYBONT

C.Ff.I.

C Ff.I. Penybont

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus i aelodau clwb Penybont yn Athletau C.Ff.I. Cymru !

1af - Olwen Roberts, Naid Hir

1af Sophia Reid-Thomas 100

1af - Marie Hughes - Disgen

2il - Mared Evans - Taflu Pwysau

2il - Carwyn Jones - Taflu Pwysau

2il - Elan Thomas - Taflu Pwysau

2il- Tîm Ras Gyfnewid

3ydd Cerys Nicholas Jones - Disgen



FFENESTRI/
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, Pŵc
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
☎ 01437 563 806 ☎ 07774 812587


Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb-2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
☎ 01994
419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg

Llongyfarchiadau mawr i aelodau Clwb Penybont yn cynrychioli C.Ff.I. Sir Gâr yng nghystadleuaeth y Siarad Cyhoeddus Saesneg yn Stafford, sef Celyn Richards, Hannah Richards, Daniel O Callaghan a Fiona Phillips.

Bu'n ddiwrnod penigamp gyda Sir Gâr yn fuddugol yn yr Adran Ddarllen o dan 14 oed a'r Adran Ganol o dan 21 oed.

Dyma brawf o werth dwyieithrwydd a'r gallu i gyrraedd y brig yn y ddwy iaith.

Yn ogystal â llwyddiant y timau, cipiodd y chwirydd Celyn a Hannah Richards y wobr ar gyfer y cadeiryddion gorau.



Tîm buddugol o dan 21 oed, Daniel O'Callaghan a Hannah Richards o Benybont, a Heledd Jones a Jac Davies o Glwb Dyffryn Tywi

Adran ddarllen dan 14 oed



Celyn Richards, Penybont gyda Trystan Bryn Evans, Dyffryn Cothi a Sam Morgan, Llandeilo, ynghyd â'u hyfforddwyr o Benybont, Jean Lewis a Catrin Parry Williams.

Cadeiryddion gorau



Celyn a Hannah Richards o glwb Penybont

BANCYFELIN



Ymunodd aelodau Cana a Bancyfelin ym mhererindod yr ofalaeth i Soar y Mynydd ar ddydd Sul, Mehefin 19eg. Arweiniwyd yr oedfa yn Soar gan ein Gweinidog, Parchg Beti Wyn James. Cafwyd diwrnod gwych iawn a phryd o fwyd arbennig yn y New Cross, Dryslwyn ar y ffordd adref. Diolch i bawb a ddaeth a diolch arbennig i Elfed Lewis am ein cludo yno a nôl yn ddiogel.

Am Dro



Bu'r rhaglen deledu 'Am Dro' ar ei thaith drwy bentref Bancyfelin yn ddiweddar dan arweiniad Y Parchg Beti Wyn James. Derbyniodd y cerddwyr groeso arbennig gan y gymuned.

Apêl Wcrain



Cyflwynwyd sic o £250 i Tom Defis tuag at Apêl Wcrain yn dilyn gwerthiant ein bathodynau blodau haul yng ngofalaeth Y Priorddy, Cana a Bancyfelin. Diolch i bawb a brynodd flodyn a diolch arbennig i Carys Angharad a Louise o 'Crefftiau Ni a Mamgu' am greu'r bathodynau hardd ar ein cyfer. Mae nhw ym mhobman!

Dathlu Pen-blwydd yn 100 oed



Llongyfarchia-dau mawr i Mrs Ida Evans ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed yn ystod Gorffennaf. Dathlwyd

yr achlysur mewn tê parti hyfryd yn festri Cana. Cyflwynwyd blodau i Mrs Evans ar ran aelodau Cana gan ei gweinidog, y Parchg Beti Wyn James.

Picnic



Mwynhaodd blant Ysgol Sul Bancyfelin bicnic hyfryd i ddiweddu tymor yr haf. Diolch iddynt am eu ffyddlondeb yn ystod y flwyddyn ac i Rhian a Carolyn am eu dysgu

Gibeon

Cafwyd oedfa hyfryd dan ofal y Gweinidog ar Fehefin 19eg gyda chynulleidfa dda yn bresennol.

Mae'r Ysgol Sul yn cael seibiant dros yr Haf a bydd yn ail-gychwyn ar fore Sul, Medi 4ydd am 10.30 y.b. Croeso i aelodau newydd.

Trefn Suliau Awst a Medi:

Awst 28ain. Oedfa Gymun yng Ngibeon am 10.30 y.b. dan ofal y Gweinidog.

Medi

4ydd Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd am 10y.b. dan ofal y Gweinidog.

11eg Oedfa dan ofal Miss Delyth Jones am 10y.b.

18fed Oedfa Gymun yng Ngibeon am 10.30y.b. dan

Carnifal a Mabolgampau Bancyfelin

Bu edrych ymlaen hir-ddisgwyliedig i'r Carnifal ym Mancyfelin eleni a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 2il a hynny ar ôl tair blynedd! Ac ni chafwyd ein siomi. Mae'r carnifal bob amser yn gyfle i'r gymuned gyfan dynnu at ei gilydd a chydweithio yn galed er mwyn cael diwrnod i'w gofio.

Eleni, yn ogystal â'r cystadlaethau arferol, trefnwyd cystadleuaeth creu bwganod brain a mi gafwyd ymateb syfrdanol gyda rhai o bob math yn ymddangos ar hyd a lled y pentref. Cafodd Brenhines

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
 Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
 Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
 Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
 Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
 Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygywn ar Daf
 Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227

ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
 a'i Gwmni

SIOP NWYDDAU HAEARN
 Belle Vue
 Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

y Carnifal a'i chriw gyfle i grwydro drwy'r pentref ac roedd cystadlaethau gwisg ffansi arferol a'r floats; cystadleuaeth pobi cacen ar y thema - 'Cinio ysgol' ar gyfer y Bake-off; stondinau amrywiol yn y Neuadd; Mabolgampau yng nghae yr Ysgol a'r cyfan yn cael ei gloi gan adloniant yn y dafarn lleol- Y Fox. Bu wir yn ddiwrnod i'w gofio yn enwedig gan bod pobl wedi edrych ymlaen yn eiddgar iddo.

Diolch i bawb a fu'n gyfrifol am wneud y trefniadau cyn y diwrnod ac i bawb a weithiodd mor galed ar y diwrnod ei hun. Diolch i bawb a gymerodd rhan hefyd. Gwerthfawrogwyd yr hwyl a sbri yn fawr iawn.



Henoed Bancyfelin



NEWYDDION BLAENCONIN

GOFID Y COFID

Profiad hyfryd yw cael manteisio ar y cyfle i ddod ynghyd unwaith eto a braf yw gweld y gymuned yn dechrau trefnu gweithgareddau megis Cyngherddau ac ati OND ... mae 'gofid y Cofid' yn ein herio o hyd. Rhaid bod yn ofalus ac yn wyliadwrus.

Mae nifer o'r ffyddloniaid wedi bod yn dost yn ystod yr wythnosau diwethaf a ninnau'n dymuno gwellhad llwyr iddynt yn fuan.

Bu un, Dr Bethan Lloyd, yn yr Ysbyty am gyfnod ond braf yw cael cyhoeddi ei bod wedi dod adref, ac yn gwella yn cryfhau.

Daliwn ati i ddod ynghyd gan gofio am 'ofid y Cofid'. Mae'r feirws yn dechrau cydio unwaith eto, mae'n ofynnol i bob un ohonom fod yn ofalus.

Os ydych yn gorfod hunan-ynysu, cofiwch gysylltu gan fod aelodau'r Eglwys yn barod iawn i gynorthwyo gyda'r siopa ac ati. Mae hyn yn wir am ein cyfeillion a'n cymdogion hefyd.

Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Braf yw cael cyhoeddi fod y daith gerdded flynyddol i'w chynnal dydd sadwrn, 24ain Medi 2022.

Mae dyddiad y daith gerdded yn hwyrach eleni am fod prysurdeb mawr yn yr ardal ar ddechrau'r mis.

Mae'r daith i ddechrau yng Nghwm Miles a gorffen yng Nghalfaria, Login. Bydd lluniaeth yn Festri Login i bawb ar ddiwedd y daith.

Nid yw'r daith gerdded yn hir ond mae'n estyn cyfle i aelodau'r Eglwys gymdeithasu gan godi arian tuag achosion da ar yr un pryd.

Yr elusennau fydd yn derbyn nawdd eleni yw :

Clefyd y Siwgr, Ambiwllans Awyr Cymru a Meddygfa Preseli, Crymch.

Yn ddiweddar bu Henoed Bancyfelin yn cyfarfod yn siop goffi 3 A's, Maes y Sioe, er mwyn cael Te Prynhawn. Braf oedd cael cyfle i gymdeithasu unwaith eto. Roedd y bwyd yn ardderchog, diolch i Tegwen Evans a'i staff. Mwynhawyd brynhawn hwyliog iawn yng nghwmni ein gilydd. Diolch i Mai Thomas ein hysgrifenyddes am drefnu'r cyfan.

Taer erfynnir ar aelodau holl Eglwysi'r Gymdeithas i gefnogi'r daith gerdded.

Bwriedir cyflwyno'r arian nawdd i'r achosion da mewn noson arbennig yn Neuadd Llanboidy, nos Wener, 2il Rhagfyr. Mwy o wybodaeth am y noson yn agosach i'r dyddiad.

CYFLWYNO'R CADEIRIAU

Mae Cadair Eisteddfod Blaenconin a Chadair Eisteddfod Clunderwen bellach yn ein meddiant ac mae'n amse-rol, felly, i ddechrau trefnu'r oedfa fydd yn cyflwyno'r Cadeiriau i'r cyhoedd.

Rydym yn chwilio am 3 neu 4 o wirfoddolwyr i ymchwilio i hanes yr Eisteddfodau er mwyn egluro hanes a chefnidir y Cadeiriau. Pwy sy'n barod i gynorthwyo? Yr ydym yn gobeithio cynnal yr oedfa ar y Sul cyntaf o Dachwedd - ein Sul o Ddiolchgarwch.

BEIRDD BLAENCONIN

Mae'r Beirdd wedi bod yn dawel ers sawl mis ond ... daeth yr awen unwaith eto !

Mamgu a'r Mab

Daeth Mab y Frenhines i Arberth,
a dyna'i chi groeso a gaed,
y strydoedd yn llawn o ymwelwyr
a phobol o'r ardal mewn haid.
Aeth dwy o Flaenconin i'w weled,
gan chwifio y faner yn chwim,
a'r cynnwrf yn cyrraedd uchelfan
a menyw yn gweiddi – 'It's HIM !'
Aeth Mab y Frenhines ar grwydr
gan siarad fan hyn a fan draw,
y bobol yn bloeddio i'w gyfarch
a rhai'n mynnu estyn eu llaw.
Ac yna, o gornel ei lygad,
fe welodd, ynghanol y ffair,
y merched, Aelodau Blaenconin
a dweud, 'Are you Margaret and Mair ?'
'We've come from
Blaenconin this morning
to bid you a 'Croeso Cymraeg' ;
'You're here on your own'
meddai'r merched,
'I can't see a clip of your gwraig !'
Bu'r Mab yn fonhoddig ofnadwy,
gan wenu, aeth nôl tua'r dre,
a'r ddwy o Flaenconin yn hapus –
cael sgwrs gyda'r Mab – gyda FE !
Bydd Charles yn mynd adref yn llawen
gan adrodd yr hanes am sbel,
'I met these two girls from Blaenconin',
Ac ebe'r ddwy ferch –
Wel ! Wel ! Wel !

Mwy gan y Beirdd mis nesaf !

LLANDYSILIO

Priodas Dda



Priodwyd
Declan Morgan
a Catrin
Llewellyn
ar y 25ain o
Fehefin yn
Llechwen Hall,
Pontypridd.
Declan yn
wreiddiol o
Henffordd
a Catrin o
Landysilio.
Mae'r
ddau wedi
ymgartrefu
yn Llaneirwg,
Caerdydd.

Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt ar eu bywyd priodasol.

Ar ddiwrnod braf ganol Haf yn Eglwys Sant Tysilio, Llandysilio, ym mhresenoldeb teulu a ffrindiau, priodwyd Warden Ficer Eglwys Sant Tysilo, Phillip Mahiques a Jaon Wilson. Roedd y briodferch yn edrych yn hardd iawn, a rhoddwyd hi i ffrwd gan Carwyn Phillips, yng nghwmni Morwyn Flodau Faith Brown.

Ar ôl y Gwasanaeth cynhaliwyd y frecwast yng Ngwesty Nantyffin. Hoffau aelodau'r Eglwys ddymuno pob hapusrwydd i'r ddau yn eu bywyd priodasol.


Graddio



Llongyfarchiadau i Jess Morris, merch Andrew a Jenny Morris, ar raddio gyda Gradd Anrhydedd 1af mewn Addysg a gofal Blynnyddoedd Cynnar.

Colofn Llên

LLYFRAU: **CORS CARON**
gan Meleri Wyn James



Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni, mae'r nofel hon yn addas gan fod y Gors yn yr ardal. Mae tir gwyllt y gors fel ail gartref i Caron, 15 oed ac Iwan ei ffrind gorau. Ond un prynhawn mae'n mynd ar grwydr a dyw hi ddim yn dod yn ôl. Nofel gyffrous sy'n symud rhwng dau fyd,

a stori hudolus am chwilio, am berthyn ac am ein newid agwedd at yr amgylchedd.

Mae Cors Caron yn dir gwlyb ac arferai pobl fynd yno i dorri mawn. Yn awr, mae pobl yn ymweld â'r safle gan fod llwybrau addas yno.

Mae Meleri Wyn James yn ysgrifennu llyfrau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'n byw yn Aberystwyth.

CORS CARON: Gwasg Y Lolfa. Pris 7.99

Dathlu!

Nofel gan Rhian Cadwaladr
Gwasg Carreg Gwalch, £8.50

Pedair ffrind... trip i Efrog Newydd... beth allai fynd o'i le?



Ym mhedwaredd nofel Rhian Cadwaladr, mae pedair ffrind bore oes yn benderfynol o drefnu trip arbennig i ddathlu eu penblwyddi yn 60. Ond a'u bywydau wedi dilyn trywyddau tra gwahanol

tydi hynny ddim yn hawdd: mae Linda yn gofalu yn llawn amser am ei mam, Sioned yn gwarchod ei wyrion ac Iola yn rhedeg caffi. Mae Gwawr, fodd bynnag, a'i thraed yn rhydd ac yn awyddus iawn i fynd i Efrog Newydd, lle bu'n byw am gyfnod yn yr wythdegau. Pam, tybed, mae hi mor awyddus i ddychwelyd yno?

Mae Dathlu! yn nofel gynnes, deimladwy am elfennau positif a negyddol bywydau merched sy'n heneiddio, fel yr eglura Rhian; 'Pan ges i'r syniad am y nofel yn ôl yn 2020 ro'n i ddwy flynedd i ffrwd o fy mhen blwydd yn 60, ac yn awyddus i bortreadu bywydau merched o'r oed hwnnw - yr oed lle mae merched wedi mynd yn anweledig, yn ôl y sôn. Mae'n nhw wedi gorffen magu plant ac yn dod i ddiwedd eu gyrfaoedd. Ydi bywyd felly yn haws? Neu ydi heriau newydd a'r ofn o ddirywio, yn gorfforol a meddyliol, yn gwneud bywyd yn anos?'

Mae'r nofel yn dechrau yn Chwefror 2022, ac yn portreadu'n effeithiol iawn effeithiau Covid 19 a'r cyfnod clo ar y cymeriadau. Roedd hynny ynddo i hun yn her, yn ôl yr awdur. 'Ro'n i'n dechrau sgwennu Dathlu! yn 2020 ac roedd y cwbl yn digwydd flwyddyn a hanner yn ddiweddarach, felly bu'n rhaid i mi ddyfalu beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol o safbwynt y pandemig. Do'n i ddim yn gwybod i sicrwydd a fyddai modd i'r cymeriadau deithio dramor yn ystod Pasg eleni, hyd yn oed, felly rhyddhad mawr oedd 'mod i wedi dyfalu'n gywir! Dwi'n gobeithio y bydd y nofel yn codi gwên ond hefyd yn gwneud i rywun feddwl ychydig. Does 'na ddim byd yn drwm ynddi, er ei bod yn delio efo pynciau digon dyrus. Dwi'n gobeithio y bydd y darlennydd yn medru uniaethu efo'r cymeriadau, dim ots pa oed ydyn nhw - rydan ni'n teimlo'r un emosiynau ac yn delio efo problemau digon tebyg, beth bynnag ein hoed.

cyhoeddi@carreg-gwalch.cymru



**COLIN JOHN
Llewelyn Davies**
Cyfrifwyr Siartredig

Hendygwyn

01994 240254

www.llewelyndavies.co.uk

HUW OWEN
== CLUDIANT ==



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305


**Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf**



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

CYMDEITHAS WALDO

Amcanion:



i) Diogelu'r cof am waith a bywyd Waldo Williams a ystyrir yn un o lenorion mwyaf dylanwadol Cymru ac yn fardd o statws rhyngwladol;
ii) Hyrwyddo cyfraniad Waldo Williams at lèn a diwylliant Cymru trwy ddehongli a chreu ymwybyddiaeth

ddyfnach o'i waith yn lleol ac yn genedlaethol.

WALDOTHON

Mae ar bob mudiad, elusen, clwb a chymdeithas angen arian i barhau â'r gwaith da mae'n nhw'n ei wneud, a dydy Cymdeithas Waldo ddim yn wahanol.

Oherwydd hynny, mae Cymdeithas Waldo'n trefnu 'Waldothon' gyda'r bwriad o godi arian drwy noddi darlleniadau o'i holl gerddi.

Mae 317 o gerddi Cymraeg a 27 o gerddi Saesneg yng nghyfrol Alan Llwyd a Robert Rhys, Cerddi Waldo 1922–1970 (Gwasg Gomer: 2014) sy'n gwneud cyfanswm o 344 i gyd. Bydd ugain o bobol ar draws Cymru yn arweinyddion grwpiau, i ddarlenn tua 20 o gerddi Waldo, ac mae gwahoddiad i bobl ledled y wlad i noddi'r darlleniadau fesul £5 y gerdd.

Meddai'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd: Mae boddhad i'w gael bob amser wrth droi at gerddi Waldo. Pleser ychwanegol yw eu darllen yn uchel, gan brofi'r rhythmau pwerus a sain esmwyth y geiriau. Ar ben hynny, bydd yr achlysur yn codi arian i gadw'r cof am y bardd yn agos at glust ei wlad. Bydd yn brofiad i'w werthfawrogi ar sawl cyfri!

Ychwanegodd Emyr Llywelyn, un o lywyddion anrhydeddus Cymdeithas Waldo:

Diolch i Mererid Hopwood ac Alun Ifans, Maenclochog, am drefnu 'Waldothon' nodedig gyda deunaw o bobl ledled Cymru yn darllen cerddi Waldo ar y 1af o Hydref. At bwy y trown pan mae'r 'byd yn chwâl' am ysbrydoliaeth? At bwy ond Waldo - â'i weledigaeth am frawdgarwch dyn, am heddwch a phwysigrwydd iaith a bro.

Cynhelir y 'Waldothon' am 10 o'r gloch y bore, Sadwrn, Hydref y 1af, 2022. Mae hyn ddiwrnod ar ôl 'Diwrnod Waldo' sef Medi 30ain.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun Ifans neu Mererid Hopwood

Alun Ifans: alunifans@hotmail.com

Mererid Hopwood: m.hopwood336@btinternet.com

Pwyllgor Apêl Sancler, Bancyfelin, Llangynin a Phwll-trap Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023

Cafwyd prynhawn bywiog o chwerthin iach a chymdeithasu yn Nhe Prynhawn a Sioe Ffasiwn Pethau Olyv yn Neuadd Bancyfelin, a gafodd ei drefnu gan Bwyllgor Apêl Sancler, Bancyfelin, Llangynin a Phwll-trap ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd Sir Gâr 2023.

Daeth degau o bobol ynghyd i gynorthwyo. Diolch i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth yn sicrhau fod y digwyddiad mor llwyddiannus, ac i Yvonne ac Olive am eu hawr o adloniant pur.



Y CARDI BACH, BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

CARIAD O BETH CARDI BACH

YSGOL HAFODWENOG

Dathlu'r Jiwibili



Picnic i ddathlu'r Jiwibili.
Diolch Miss Andrea am y bwyd



Celf a Chrefft yr Urdd



Llongyfarchiadau i Cari Haf Thomas am ennill yr ail safle yng nghystadlu darlunio llun 2D Eisteddfod yr Urdd 2022

Gala Nofio



Llongyfarchiadau enfawr i bawb fuodd yn cystadlu yn ein gala nofio cyntaf ers 2011! Diwrnod llwyddiannus dros ben.

Mabolgampau

Diwrnod braf, llawn hwyl. Teifi ddaeth i'r brig eleni. Llongyfarchiadau i'r canlynol :
Tarian maes – taflu – Gethin Godden
Tarian maes – neidio – Mared Williams
Tarian Ras Hir – Elis Harries
Pencampwr Rhos Fach – Bechgyn – Cillian Brooks
Pencampwr Rhos Fach – Merched – Rosie Whittal-Williams
Pencampwr Cae Glas – Bechgyn – Elis Harries
Pencampwr Cae Glas – Merched – Mila Evans
Tarian Pencampwr Ysgol Hafodwenog – Elis Harries
Llongyfarchiadau i bawb, mabolgampau llwyddiannus iawn.



Bags 2 School

Dyma aelodau o'r Cyngor Eco a Chyngor Masnach Deg yn helpu llwytho'r holl ddillad a gasglwyd. Diolch i bawb am eich cyfraniad.

Gardd Synhwyrdd

Ychydig fisoedd yn ôl aeth criw o flwyddyn 6, Mr Dafis a Sharon i brynu planhigion yn Nhrefhedyn, Castell Newydd Emlyn. Fel Cyngor Eco, hoffwn ddiolch i Sharon, Lawrence a Rebecca Brooks am eu holl gyngor wrth ddatblygu'r ardal fach yma ac i Mrs Bowen am arwain y plannu.

Gweithgaredd coginio

Bu Rhos Fach yn ffodus iawn i gael diwrnod pobi yng nghwmni rhiant, Rebecca Brooks, i ddysgu'r broses o greu bara o'r grawn i'r dorth. Diolch o galon i Rebecca am ei hymdrech a'i hamser, bu'r profiad yn un cofiadwy i ni gyd.

YSGOL BANCYFELIN**Taith Breswyl**

Cafodd disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 y Ffederasiwn hwyl yn ymweld â Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn ystod mis Mehefin, ac yn blasu amrywiol weithgareddau gan gynnwys taith i Sain Ffagan, ymweliad â'r Senedd, Castell Caerdydd a'r Amgueddfa Genedlaethol, taith cwch fyni i'r ddinas, bowlïo deg a phinacl y daith i'r rhan fwyaf o'r staff a'r disgyblion, sef taith o gwmpas y bae ar y cwch cyflym.

**Mabolgampau**

Bu cystadlu brwd rhwng y Llewod a'r Dreigiau yn ystod mabolgampau'r ysgol. Prynhawn llawn hwyl a phawb wrth eu bodd.

Dymuniadau gorau i ddisgyblion Blwyddyn 6 a fydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Diolch i chi am bopeth a phob lwc yn Ysgol Bro Myrddin. Ymddeoliad hapus hefyd i Mrs Lynette Pickersgill a Mrs Sheila Freeman a dymuniadau gorau i Miss Jaime Budding a fydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Diolch yn fawr iawn i chi am eich gwasanaeth i Ysgol Bancyfelin.

Dathlu'r 100

Roedd yn braf cael cyflwyno cerdyn i Mrs Ida Evans, Llysonnen ar achlysur ei phenblwydd yn 100 oed, yn y parti yn Festri Cana. Penblwydd hapus iawn i chi.

Pob lwc a diolch

YSGOL BRO BRYNACH

Diolch yn fawr iawn i deulu Caeremlyn am drefnu diwrnod agored yn y gerddi cyn y pandemig, codwyd £4000 yn ystod y diwrnod. Roedd yn ddiwrnod braf gyda nifer o weithgareddau i'r plant. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr ymdrechion a chefnogaeth gan yr holl gymuned ac o ganlyniad rydym wedi buddsoddi mewn dosbarth allanol a'i henwi'n 'Caban Caeremlyn'.



Caban Caeremlyn

Mwynhaodd disgyblion dosbarth Cynin trip i Wersyll yr Urdd, Caerdydd. Cafwyd amser da wrth ymgymryd mewn gweithgareddau amrywiol o gwmpas y brif ddinas a'r bae.

Cynhaliwyd Mabolgampau a Ffair Haf yr ysgol eleni ar yr 20fed o Fehefin. Braf oedd gweld ffrindiau'r ysgol yn gallu dod i gefnogi'r digwyddiad. Llongyfarchiadau i Lys Gronw am ennill y diwrnod. Llongyfarchiadau hefyd i Haydn, Gwenllian, Alice a Deri am ennill y nifer uchaf o bwyntiau yn unigol.



Gwenllian, Haydn, Alice a Deri

Cynhaliwyd noson agored i rhieni ymweld â'r ysgol ar y 30ain o Fehefin. Braf oedd gweld yr ysgol yn llawn bwrllwm unwaith eto ar ôl cyfnod hir y pandemig.

Er gwybodaeth, mae gennym flwch tu allan i'r ysgol ar gyfer dillad ail-law sydd yn ddi-angen i chi, mae'r dillad yn mynd i deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig ar draws y byd.

Cafwyd diwrnod arbennig ar draeth Pentywyn ar ddydd Llun y 4ydd o Orffennaf. Mwynhaodd y plant adeiladu cestyll tywod, cael cyfle i chwarae yn y môr a mwynhau hufen iâ blasus cyn mynd adref.



Mwynhau ym Mhentywyn

Mwynhaodd disgyblion blwyddyn 6 y cyfle i ymweld â'i hysgolion Uwchradd. Dymunwn pob hwyl iddynt yn eu hysgolion Uwchradd yn mis Medi.

Hoffwn fel ysgol ddymuno pob lwc i Miss Amber Edwards ac Ioan ar ddiwrnod eu priodas yn ystod gwyliau'r haf.

Dymunwn pob hwyl i Mr Mathew Lemon sy'n dechrau swydd newydd yn ysgol Penygroes ym mis Medi. Diolch iddo am ei ymroddiad yn ystod y chwe mlynedd diwethaf. Pob lwc i chi yn eich swydd newydd.

YSGOL GRIFFITH JONES

Mabolgampau

Hyfryd oedd gallu cynnal ein mabolgampau gan wahodd rhieni a ffrindiau'r ysgol yma am y tro cyntaf ers dwy flynedd. Daeth llu o rieni i gefnogi eu plant o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 4. Bydd cyfle Blwyddyn 5 a 6 yn ystod wythnos ola'r tymor. Croeswn ein bysedd am dywydd sych!

Ymwelwyr

Croesawyd Kristen sef nyrs yr ysgol atom i siarad â disgyblion Blwyddyn 6 am dyfu i fyny, a disgyblion Blwyddyn 3 a 4 am bwysigrwydd bwyta'n iach.

Am y tro cyntaf ers dwy flynedd croesawyd rhieni a phlant newydd y dosbarth Meithrin atom ar gyfer prynhawn agored.

Cafodd y plant lleiaf fore hwylus dros ben wrth i Martyn Geraint ymweld â'r ysgol i ddifyrru dosbarthiadau Beca, Dewi a Non a bu pawb yn mwynhau ymuno yn y canu a'r miri.

Chwaraeon yr Urdd



Bu aelodau'r Urdd yn brysur iawn yn cystadlu mewn dwy gystadleuaeth yr Urdd sef pêl droed a rygbi tag. Fe gyrhaeddodd nhw'r pedwar olaf yn y pêl droed a cholli yn y ffeinal fu eu hanes yn y rygbi. Pob clod iddyn nhw i gyd am ymdrech wych.

Ymweliadau

Bu nifer o'r dosbarthiadau yn mwynhau triapiau amrywiol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Aeth Dosbarthiadau Dewi, Beca, Arthur a Gwenllian ar daith i'r traeth yn Ninbych y Pysgod gyda dosbarthiadau Arthur a Gwenllian yn ymweld â Chanolfan y Bad Achub hefyd. Bu dosbarthiadau Culhwch ac Hywel yn ymweld â Fferm Ffoli fel rhan o'u gwaith thema ar anifeiliaid mewn perygl.

Pontio

Trefnwyd diwrnodau pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 + 6 yn Nyffryn Tâf a Bro Myrddin. Mwynhaodd y plant y cyfle i gyfarfod ag athrawon a ffrindiau newydd.

Hwyl Diwedd Tymor



Bu dosbarthiadau Dewi, Beca a Non yn dathlu diwedd eu gwaith thema drwy gael picnic 'sgods a sglods' yn yr awyr agored. Tra bu dosbarthiadau Cam Cynnydd Dau yn mwynhau diwrnod o wisgo lan fel môr ladron i gwblhau eu thema 'Fuocho chi 'rioed yn morio?'.

Gŵyl Ganol Dre

Bu disgyblion Blwyddyn 2, 3,a,4 yn perfformio yn 'Gŵyl Ganol Dre' yng Nghaerfyrddin. Diolch i Menter Iaith Sir Gâr am drefnu'r wyl ac am roi cyfle i'r disgyblion gael bod yn rhan ohoni.

Ffarwelio

Pob hwyl i'r 51 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni eleni. Diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad dros y blynyddoedd.

Pob dymuniad da i'r staff sydd yn ein gadael hefyd. Bydd Mr Carwyn Richards yn ein gadael ar ddiwedd y tymor er mwyn dechrau ar swydd newydd yng Nghastell Nedd. Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Anwen Thomas sy'n ein gadael ar ôl cyfnod o ddeg mynedd ar hugain fel cynorthwydd. Diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith caled fel rhan o'n tim ni dros y blynyddoedd. Bydd Mrs Mai Giles yn ein gadael am gyfnod gan ddechrau ar swydd fel Pennaeth dros dro yn Ysgol Beca a Bro Brynach. Pob hwyl hefyd i Miss Carys Evans a fydd yn dechrau ar gyfnod mamolaeth ar ddechrau mis Medi.

YSGOL BRYNCONIN

Twrnament Criced



Llongyfarchiadau i dîm criced yr ysgol am ddod yn ail yn nhwrnament criced yn Llechryd ar ddydd Gwener, 10fed o Fehefin. Da iawn nhw hefyd am gystadlu yn rownd derfynol Sir Benfro ar 4ydd o Orffennaf.

Taith BL5 a 6

Cafodd y plant amser wrth eu boddau nos Iau yn cysgu yn yr ysgol cyn eu taith i Gaerdydd ar ddydd Gwener. Fe wnaeth pob un fwynhau bwyta pítsa, hufen iâ a gwyllo ffilm. Dydd Gwener oedd yr uchafbwynt gyda phawb yn mwynhau y cwch cyflym, bowlïo deg, sglefrio iâ a nofio. Creuwyd atgofion melyn bydd y plant yn cofio am byth.

Cwis Llyfrau

Da iawn i Charlie, Cynan, Deri a Luca am drafod llyfr 'Cwningen a'r Arth, Ble yn y Byd?' yng nghystadleuaeth Darllen Dros Gymru, rownd derfynol yn Abersytwyth dydd Mawrth, 21ain o Fehefin. Da iawn hefyd i Caryl, Catrin, Charlie, Cynan, Deri, Harry, Luca a Poppy am rannu eu cyflwyniad o lyfr '10 Stori y Dylai Pawb Wy-

bod am Hanes Cymru ar y diwrnod. Er na lwyddwyd i ennill gwobr, llongyfarchiadau i'r tîm am wneud mor dda i gyrraedd y genedlaethol a chynrychioli Sir Benfro yn y gystadleuaeth.



Tîm Cwis Llyfrau

Mabolgampau'r Ysgol

Braf oedd cael cynnal mabolgampau'r Ysgol ar ddydd Iau, 23ain o Fehefin a bendigedig oedd cael cwmni rhieni a ffrindiau yr ysgol unwaith eto. Da iawn i bob plentyn am gystadlu mor dda a llongyfarchiadau i Kieran a Catrin am ennill y tlysau ac i dîm Dryw am ennill y mwyaf o bwyntiau ar y diwrnod.

Murlun Blwyddyn 6



Braf oedd cael croesawu Rhys Jones Oriolodl a ddaeth i greu murlun gyda phlant blwyddyn 6 ar ddydd Mawrth, 5ed o Orffennaf. Cafodd y plant gyfle i greu murlun am eu hatgofion a bywyd yn Ysgol Brynconin.

Ffair Haf

Diolch o waelod calon i Swyddogion Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Brynconin am drefnu y Ffair Haf ac i bawb oedd wedi cynorthwyo, cyfrannu a chefnogi mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y Ffair. Braf oedd gweld nifer o rieni a ffrindiau yr Ysgol yn cymdeithasu a mwynhau gyda'u gilydd unwaith eto. Rydym wedi llwyddo i godi £1,052 tuag at yr Ysgol – mae hyn yn wych.

Gala Nofio

Da iawn i blant o Flynyddoedd 2,3,4,5 a 6 am gystadlu yng nghystadleuaeth gala nofio Ysgol Brynconin ar ddydd Mercher, 6ed o Orffennaf. Llongyfarchiadau i bawb am gystadlu mor dda a llongyfarchiadau enfawr i dai Robin a Bronfraith am ennill tarian Gala Nofio Ysgol Brynconin.

Trip Haf i'r Traeth

Braf oedd cael treulio diwrnod ar Draeth Mawr, Trefdraeth ar ddydd Iau, 7fed o Orffennaf. Cafodd y plant amser wrth eu bodd.

YSGOL BECA

Trip i wersyll yr Urdd Caerdydd



Buodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar drip i Wersyll yr Urdd yng Nghaerdydd y tymor hwn. Cafodd y disgyblion amser arbennig yn y brifddinas. Ymwelwyd â'r Senedd, Yr Amgueddfa Genedlaethol, Sain Ffagan a llawer mwy!

Mabolgampau

Ar y 22ain o Fehefin buom yn ffodus i gael diwrnod bendigedig wrth gynnal y mabolgampau. Braf oedd gallu croesawu rhieni yn ôl i'r ysgol er mwyn gwyllo eu plant yn cystadlu. Cawsom ffair haf i ddilyn y mabolgampau ac roedd pawb wedi mwynhau'r mefus a hufen yn yr haul.

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
 Tractorau Newydd ac Ail-law
 Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
 a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr



Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
 Setiau ar werth
 Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

MASNACHWYR ADEILADU
DAVIES

Cyflenwyr Adeiladu a D.I.Y.
 Arddangosfa Ceginau
 ac Ystafelloedd Ymolchi
 ar agor



Heol yr Orsaf
 Hendygywyn
 Ffôn:
 01994 240228



Llongyfarchia-
dau i mabol-
gampwyr eleni
sef Celyn,
Osian, Cai a
Ffion.

Trip diwedd y tymor i draeth Bentywyn



Diwrnod i'w gofio oedd y 4ydd o Orffennaf i ddis-
gyblion Ysgol Beca. Buodd y disgyblion ar drip i draeth
Bentywyn a braf oedd mwynhau a chwarae gemau ar
y traeth. Cafwyd hufen ia ar y traeth i orffen diwrnod
bendigedig yn yr haul.

Ffarwelio â Blwyddyn 6



Hoffem fel ysgol ddymuno pob lwc i ddisgyblion
blwyddyn 6 wrth iddynt orffen eu cyfnod yn yr ysgol
Gynradd. Bydd Cai, Celt, Dev, Anwen, Ffion, Gwen a
Lucy yn dechrau pennod newydd ym mis Medi wrth
iddynt fentro i Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Dyffryn Taf.
Pob lwc i chi blant a chymerwch bob cyfle.

Ffarwelio â Mr Lemon a Miss Hughes

Nid dim ond disgyblion blwyddyn 6 sy'n ein gadael ar
ddiweddy tymor hwn. Rydym hefyd yn ffarwelio â Mr
Lemon a Miss Hughes. Mae Miss Hughes wedi bod yn
gweithio fel cynorthwydd yn nosbarth Carn Gyfrwy
dros y 8 mlynedd ddiwethaf. Diolch am dy holl waith
caled, bydd y babanod yn gweld dy eisiau. Hoffwn ddi-
olch hefyd i'n pennaeth, Mr Lemon am fod yn bennaeth
arnom dros y 3 mlynedd ddiwethaf. Diolch am eich holl
waith caled a phob lwc yn eich hysgol newydd, byddwn
yn gweld eich eisiau yn Ysgol Beca.



Watson Jones gan Guy Manning

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

Ysgubor
Bryncaerau
Llety clyd
Sanclêr
07870
100831

**CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.**
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygywn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937

Ni Yma o Hyd



*F'enw i yw
Alaw John, ac
yn ddiweddar,
rhoddais raglen
ddogfen ar gyfer
y radio at ei
gilydd yn ceisio
crynhai'r effaith
anghredadwy
mae tîm pêl-
droed Cymru
wedi cael ar nid
dim ond y Cymry
Cymraeg, ond*

*agwedd y Cymry di-Gymraeg, tuag at ein hiaith a'n
diwylliant. O ganlyniad, gwnaeth i mi ddarganfod
y ffyrdd byddai orau er mwyn sicrhau bod yr iaith
Gymraeg yn ffynnu dros y degawdau nesaf.*

Mae mynd i'r Brifysgol yn rhywbeth awtomatig i radde, fel se hi'n gam naturiol i'r mwyafrif. Ond diolch i Dduw bod y dair mlynedd diwethaf 'ma wedi dod i ben, yn enwedig y flwyddyn ola! Sylwes i byth pa mor anodd fydd hi. Lot fowr o ddagre, straen aruthrol ar adege, a'r angen i roi'r gorau iddi, yn pryfoco'r meddwl yn aml. Joies i sawl rhan 'fyd cofiwch, byw'n y ddinas fowr (Caerdydd), sy'n fyd gwahanol o gymharu â Crymych, gallu mynd mas pryd bynnag, heb orfod dweud wrth mam a dad le i fi a phryd byddai getre, yn ogystal â chwrdd â ffrindie oes. Des i ben â chyrhaedd yr ochr arall, wedi i mi dreulio'r flwyddyn olaf yn rhoi rhaglen ddogfen dwi'n falch iawn ohoni, at ei gilydd.

Nôl ym mis Medi'r llynedd, ar ddechre'r trydedd flwyddyn, roedd rhaid i ni gychwyn trefnu ein prosiect terfynol, rhaglen ddogfen ar gyfer y radio. Wedd ddim syniad 'da fi le i ddechre, wen i'n disgwyl rhyw fath o sbardun i 'mwrw i. Ar ôl dau fis o ddim byd, wen i'n dechre meddwl, 'Dere mlân nawr Alaw, ma'n bryd i ti rhoi bach o feddwl ac ymdrech mewn i hwn.' Ond dyna pryd es i weld gêm Cymru yn erbyn Belarws nôl ym mis Tachwedd.

Roedd clwstwr o bobl tu allan i'r stadiwm yn canu

'Yma o Hyd', cyn i'r gân wneud ei stamp, os hoffech chi, ym myd pêl-droed Cymru. Dwedodd un o'm ffrindie sy'n Gymro, ond nid yw'n siarad Cymraeg, "What's this song? It's awful!" Wedi'r gêm ddod i ben ac enillon ni 5-1, gofynnodd e i fi am eirie'r gân, "It's amazing! I want to learn the words", medde fe. Eironig iawn meddylies i, ond yn amlwg, anfonais linc i'r gân a'r geirie iddo.

Wedi i mi weld e wedyn rhyw wythnos yn hwyrach, odd e'n gwybod y geirie i gyd. Gwnaeth hynny wneud i mi feddwl hefyd am ein hanthem, 'O bydded i'r hen iaith barhau'. Mae 80,000 o bobl yn sgrechian y llinell hynny'n Stadiwm y Principality, ond faint sy'n deall yr addewid mae'n nhw'n gwneud bob tro maent yn bloeddio'r anthem? Roeddwn i am ddarganfod os yw deall y geiriau yn gwneud unrhyw wahaniaeth, ac fel mae'r iaith yn ffitio mewn i'n cymdeithas fodern ni heddiw.

Penderfynais gychwyn o'r dechrau, gyda Phennaeth Cyfathrebu Pêl-droed Cymru, Ian Gwyn Hughes. Trefnodd bod "Yma o Hyd" yn chwarae'n y stadiwm cyn gemau cychwynnol y wlad yn ymgyrch Cwpan y Byd. Dywedodd wrthai, "Mae popeth yn dod lawr i'r cefnogwyr, os mae'n nhw'n cymryd i rhywbeth neu beidio. Ac yn yr achos yma, cymron nhw iddi, a gallen i erioed wedi dychmygu'r canlyniad."

Siaradon ni hefyd am ei rôl aruthrol o ran gwneud yr iaith, ein traddodiadau a'n diwylliant yn fyw ym myd pêl-droed Cymru, a'r hyn sydd rhaid gwneud er mwyn sicrhau bod pobl yn dangos diddordeb, ac eisiau dysgu'r iaith. Mae Ian wedi chwarae rhan anhygoel yn siapia Cymru ar hyd ei amser gyda'r garfan, ac yn rhywbeth bydd yn rhan o'n llyfrau hanes. Trawsnewidiwyd agwedd y Cymry di-Gymraeg tuag at Gymreictod yn ddiweddar, ond dechreuodd y broses dros ddeuddeg mlynedd yn ôl, pan oedd Gary Speed yn rheoli, ac mae'n sicr yn rhywbeth sydd angen i ni adlewyrchu dros weddill y wlad.

Rhaid i mi gyfaddef, wedd amseru Dafydd Iwan a'r ymgyrch Cwpan y Byd yn berffaith! Heb y cynnwrf dros y misoedd diwethaf yma, y siawns yw bydde ddim rhaglen ddogfen o werth 'da fi! Des i ben â chyfweld

Rhys Jones
Glanhauw Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stôffiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiadu llawn

☎ 07554 647544
www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin

*Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy*

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich
presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

â Dafydd wedi gêm Awstria, am ei brofiad yn canu'n y stadiwm ac fel mae e'n teimlo am bobl yn canu ei gân, er nad ydynt yn deall y neges a'r pwrpas tu ôl iddi. Dywedodd mai dyna beth sy'n rhyfeddol am ei ganeuon, yw bod dim angen gwybod pob gair er mwyn deall a theimlo'r ystyr tu ôl iddynt. Roedd hyn yn agoriad llygaid i mi, dwi'n bersonol wedi teimlo dagre wrth wrando ar gân Eidalaidd er enghraifft, ond gallai ddim dweud wrthoch chi'n union pam. Eglurodd Dafydd mai'r datblygiad dros y blynyddoedd sy'n bwysig, y gwahaniaeth yn agwedd y Cymry tuag at y Gymraeg heddiw, o gymharu â degawd yn ôl. Sdim pethe'n digwydd dros nos, ond, mae newid mawr ar y gorwel, ac ry'n ni gyd yn dystion iddo ar hyn o bryd.

Gwnes i hefyd gyfwrdd â Joseph Gnagbo, ffoadur o'r Arfordir Ifori a ddaeth i Gymru yn 2018. Roedd yn rhugl yn yr iaith o fewn blwyddyn, ac ers i'w blant ymuno gydag ef yma, anfonwyd hwy i ysgol Gymraeg. Mae'n ddyn hynod ysbrydoledig, i'r Cymry Cymraeg yn ogystal â'r di-Gymraeg, ac yn rhywun gallwn ni gyd ddysgu oddi wrtho. Siaradais gyda teulu o Bontypridd hefyd, Matt a Kim Skinner, sydd yn dysgu Cymraeg, ac wedi anfon eu plant i ysgol gynradd Gymraeg yn yr ardal. Roeddwn i am ddarganfod pam eu bod nhw wedi gwneud y dewis yma, a beth mae'n nhw'n meddwl sy'n allweddol er mwyn sicrhau bod agwedd rhai o'r Cymry tuag at ein hiaith yn newid am y gorau. Eto, mae yna ymdeimlad bod newid mawr ar ffin digwydd, ac roedd pawb wnes i gwrdd a chyfweld gydag ar hyd y ffordd, yn ychwanegu fflam o obaith at hyn.

Roedd cynhyrchu'r rhaglen ddogfen yma'n brofiad hollol wobrwyl, a'n un bydd yn aros yn y cof am byth. Roedd cael y cyfle i siarad â dau ddyn sydd wedi hawlio sylw Cymru dros y misoedd diwethaf dim byd llai nag anrhydedd, ac rwy'n hynod falch mod i wedi creu rhywbeth a fydd gobeithio'n ysbrydoli gwrandawyr, ac yn chwarae rhan yn y ffordd mae Cymru'n datblygu am y gorau, dros y blynyddoedd nesaf.

Gallwch wrando ar y rhaglen ddogfen ar soundcloud, neu trwy ddilyn y linc yma:

<https://soundcloud.app.goo.gl/zHCDt7pAENhuxBit5>

Alaw John

Gwirfoddoli gyda'r Papurau Bro yn yr Eisteddfod

Mae Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022 yn nesáu (Gorffennaf 30 - Awst 6). Beth am wirfoddoli am 2 -3 awr i helpu cynnal stondin y Papurau Bro a chael tocyn diwrnod am ddim? **E bostiwch i gadarnhau pa ddiwrnod ac amser sydd yn gyfleus ac enw/au y person/au fydd yno, diolch.**

Eisiau gwerthu eich Papur Bro? Bydd modd gwneud ar y stondin – bydd angen i bob Papur Bro sydd yn awyddus i werthu ofalu am gyflenwad o'r papur ac arian ar gyfer newid 'float'. Bydd angen i'r Papur Bro hwnnw drefnu casglu'r arian hefyd wrth gwrs! Byddwn hefyd yn darparu modd i unigolion danysgrifio i'r papurau. Os oes gan eich Papur Bro system gyfrifiadurol yn bodoli er mwyn tanysgrifio, gadewch wybod i ni allu cyflwyno hynny i'r cyhoedd.

Byddwn yn trefnu ambell ddigwyddiad ar y stondin – manylion i ddilyn. Os oes gyda chi awydd trefnu digwyddiad benodol, yna croeso i chi gysylltu er mwyn cadw slot amser – nodwch y diwrnod ac amser, diolch.

Edrych ymlaen at glywed nôl gennych

Cathryn Lowri Griffith
Swyddog Datblygu
Mentrau Iaith Cymru
01492 643401

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWC
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross

Llandysilio

Clunderwen

Ffôn 07967 220289

DERI PAGE CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth



CONTRACTWYR ADEILADU
Gwasanaeth Cyflawn
Wernddu

Stryd y Brenin Edward
Hendygywyn ar Daf
SA34 0AA

Ffôn: 01994 240534
Symudol: 07966 411443

Difyrion Digidol

Ers blwyddyn bellach yn gweithio gyda mudiadau, elusennau a sefydliadau sy'n gweithio trwy'r Gymraeg, rwyf wedi dod i werthfawrogi y gwaith diflino ac amhrisiadwy sy'n digwydd gan wirfoddolwyr o fewn ein cymunedau, boed yn gosod rhifyn o'r papur bro lleol at ei gilydd, i fynychu cyfarfodydd rhithiol yr amgueddfa leol neu'r gymdeithas hanes. Mae'r pandemig wedi dangos y golled a'r gagendor yn ein diwylliant ni, pan ddaeth popeth i stop. Llwyddwyd i gynnal rhywfaint o'r diwylliant ar-lein ond roedd hi'n chwith iawn heb y bwrllwm arferol o fewn ein broydd. Yn ffodus iawn, mae gweithgareddau yn ein cymunedau yn ailgychwyn, mae eisteddfodau lleol yn ailgychwyn, mae'r Urdd wedi cael wythnos lwyddiannus iawn yn Sir Ddinbych ac fe fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yng Ngheredigion o'r diwedd, ym mis Awst. Dyma'r calendr cymdeithasol yn raddol ddychwelyd wrth i ddiwylliant y Gymraeg ail gydio ac adfywio. Ond mae'r pandemig wedi dangos fod posib gwneud pethau ar-lein, a hynny'n aml yn ddidrafferth.

Sonies mewn golofn flaenorol am bwysigrwydd parhad cyfarfodydd hybrid sef cyfuno'r elfen dechnolegol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae mudiadau fel Merched y Wawr yn ymbilio ar bawb fel cymdeithasau a chymdeithas yn gyffredinol i barhau i gynnal cyfarfodydd hybrid oherwydd fod yr angen yn sicr dal yno. Yn ystod y pandemig, llwyddodd pobl gyda anabledd, neu bobl mewn oed i fynychu cyfarfodydd am y tro cyntaf erioed, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd o'u hystafell fyw. Mae'n holl bwysig nad ydym yn anghofio'r bobl hyn, a'r ffordd i wneud hynny yw hyfforddi pencampwyr digidol o fewn ein cymunedau i gofleidio a goresgyn yr heriau hyn, a hwyluso unrhyw weithgareddau digidol.

Un o nodau rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yw gwella sgiliau digidol gwirfoddolwyr a chreu pencampwyr digidol, ac rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau i gyflawni'r amcan honno. Dyna pam y sefydlwyd rhwydwaith Ymateb i'r Heriau Digidol yn gynharach eleni, er mwyn gweithio gyda mentrau

cymdeithasol, mudiadau cenedlaethol fel Merched y Wawr a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru, i gynyddu neu wella sgiliau digidol eu haelodau a'u gwirfoddolwyr. Mae sgiliau digidol yn rhan bwysig iawn o'r jigso, fel ydi cysylltedd yn eich ardal ac offer pwrpasol. Ar hyd a lled Cymru, mae'r darlun yn amrywio, o adnoddau gwyb digidol i ardaloedd ble nad oes band llydan cyflym.

Dyma'r rhwystrau heriol yr ydym yn ei wynebu, er mwyn galluogi gweithgareddau hybrid neu ddigidol ond mae'n hanfodol fod cymunedau yn dod at eu gilydd i weithredu ac i alw am newid. Er mwyn cefnogi cymunedau i gyflawni'r nod, yr ydym fel rhaglen yn cynnig hyfforddiant cynhwysfawr, offer fel tabledi ar fenthyg, ac mae yna ffyrdd o gael data am ddim i bobl sydd ei angen hefyd.

Mae'r digidol yma i aros, a dwi'n mawr obeithio fod ein diwylliant yma i aros hefyd ond bod angen i ni fanteisio ar dechnoleg i hybu a hyrwyddo ein diwylliant, ond hefyd sicrhau nad ydym yn eithrio pobl fregus o weithgareddau cymunedol. Felly, beth amdani? Cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop os hoffech gymorth, gyngor neu fenthyg tabledi neu'n dymuno mynychu hyfforddiant.

Deian ap Rhisiart



**Penblwydd
Hapus**

60

Pwy yw'r bachgen
bach serchog 'ma
sy'n dathlu ei ben-
blwydd ar
Awst 17eg ?

IFAN DAVIES
Saer Coed



Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn. 01437 563300



W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319





GŴYL CANOL DRE



Ar ddydd Sadwrn y 9fed o Orffennaf, cynhaliodd Menter Gogledd Sir Gâr ŵyl yn nhref Caerfyrddin sef Gŵyl Canol Dre ar gae Parc Myrddin. Hwn oedd y trydydd tro iddi gael ei chynnal. Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol gyda dros 4,000 o bobl yn mynychu yn ystod y dydd.

Roedd Parc Myrddin yn llawn lliw, gweithgareddau, cerddoriaeth a phobl o bob oed a rhywbeth at ddant pawb. Roedd y ddwy lwyfan yn llawn talent lleol a chenedlaethol. Ar y llwyfan berfformio cafwyd perfformiadau gan 20 ysgol leol, Sioe 10 Stori o Hanes Cymru gan gwmni Theatr Mewn Cymeriad, sioe gan Siani Sionc, Clybiau Drama Menter Gogledd Sir Gâr a Theatr Genedlaethol Cymru a pherfformiadau gan Glybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr. Yna roedd y prif lwyfan yn cynnwys perfformiadau gan enwogion megis Candelas, Al Lewis, Los Blancos, Eadyth, 50 Shêds o Lleucu Llwyd, Pwdin Reis, Mari Mathias, Sesiwn Werin y Baedd a Chôr Seingar. Trefnwyd digon i wneud o amgylch y cae gyda dros 50 o sesiynau/gweithdai yn amrywio o greffttau, drama, clocio, barddoni, sesiynau gemau fideo, gweithdai i oedolion a chwaraeon. Roedd yr ŵyl yn cynnig ffenest siop i fusnesau lleol i werthu eu cynnyrch yn ardal arbennig yn yr ŵyl sef 'y stryd' a chroesawyd stondinau bwyd a diod o bob math.

Dywed un o drefnwyr Gŵyl Canol Dre, Gwawr Williams;

"Rydym ni'n falch iawn o lwyddiant Gŵyl Canol Dre eleni eto, mae cynnydd yn y niferoedd a ddaeth i fwynhau yn dilyn cyfnod y pandemig yn brawf bod galw am

ddigwyddiad o'r fath yng Nghaerfyrddin. Rydym wrth ein bodd o allu trefnu digwyddiad sydd wedi apelio at ystod o oeddrannau.

Hoffwn ddiolch i'n noddwyr, partneriaid, cyllidwyr a'r ysgolion lleol am sicrhau bod hi'n bosib cynnal yr ŵyl. Diolch hefyd i'n gwirfoddolwyr am roi o'u hamser, a diolch wrth gwrs i'r cyhoedd am fynychu yn eu miloedd. Rydym yn barod yn edrych ymlaen at Gŵyl Canol Dre 2023!



Siani Sionc yn diddori'r plant



Candelas yn cloi'r Ŵyl





**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT



•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

**•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS
•BATRIS •WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN
•TYMHERU AER**

Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

George's
o San Clêr
Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lân - Dioddydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30**

**Croeso i chi archebu
ar y ffôn**

01994 231482

**Heol yr Orsaf,
San Clêr**



**Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**



Nifer y dyddiau

Gorffennaf

Iau 28	Castell Highclere (Abaty Donwnton)	2
Sul 31	Gymanfa Ganu - Eisteddfod	1

Awst

Llun 1, Mer 3 a Gwe 5	Eisteddfod Genedlaethol	1
Maw 30	Gwibdaith Dirgel	1

Medi

Llun 5	Ardal y Llynnoedd	5
Llun 12	Eastbourne	5
Sad 17	Gwyl Fwyd y Fenni	1
Gwe 23	Feast Your Pork Pies on Melton Mowbray	5

Hydref

Llun 3	Iwerddon - Kerry a Dingle	6
Gwe 14	Stratford-upon-Avon	4
Sad 15	<i>Sioe Gerdd - South Pacific, CMC</i>	1
Sad 29	<i>Syr Bryn Terfel - Songs & Arias, NDS</i>	1

Gellir archebu seddau nawr ar lein!!

Evch i: -

www.joneslogin.co.uk

Nifer y dyddiau

Tachwedd

Gwe 4	Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton	4
Sad 5	<i>Sioe Gerdd - Sister Act, CMC</i>	1
Gwe 11	Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire	4
Sad 19	Nadolig ar y Coblau (Coronation Street)	2
Sad 19	<i>Sioe Gerdd - My Fair Lady, CMC</i>	1
Gwe 25	Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod	3
Sad 26	Gwyl Olau Longleat	2

Rhagfyr

Sad 3	Llwybr Goleuadau Palas Blenheim	2
Sad 10	Nadolig Gerddi Kew	2
Sad 17	<i>Sioe Gerdd - Les Miserables, CMC</i>	1
Gwe 23	Nadolig yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod	5

Edrych ymlaen i 2023

Ionawr - Sioe Gerdd Bugsy Malone, **Chwefror** - Riviera Lloegr,
Mai - Petals, Poppies a Porcelain, **Mehefin** - Ucheldiroedd yr Alban
Medi - Seidr efo Rhosys (Swydd Dyfnaint)
Hydref - Iwerddon, Mynyddoedd Wicklow, Gerddi a Dinas Dilyn
A llawer mwy i'w drefnu

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!



Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Diwrnod
Sul 7 - 12 Awst	LOCHS a DYFRFFYRDD yr ALBAN	£535	6 Diwrnod
Gwener 12 - 15 Awst	ILFRACOMBE	£340	4 Diwrnod
Sad 20-27 Awst	St ANTON, AWSTRIA	£815	8 Diwrnod
Mer 24 - 27 Awst	SIOE AGER a Hên Beiriannau DORSET, Bournemouth	£340	4 Diwrnod
Sul 4 - 8 Medi	NORMANDY Cyfle i ymweld a mynwentydd y rhai a gollwyd	£595	5 Diwrnod
Llun 5 - 9 Medi	CYMRU a'r GORORAU	£450	5 Diwrnod
Llun 12 - 16 Medi	Norfolk Broads, Steam, Cruise and Sandringham	£495	5 Diwrnod
Gwe 16 - 19 Medi	PENWYTHNOS HIR o YMLACIO yn EFROG	£310	4 Diwrnod
Gwener 14 -17 Ionawr	Penwythnos Aduniad yn WESTON SUPER MARE	£210	4 Diwrno
Gwener 21 -24 Ionawr	Penwythnos yng Ngwesty Belgrave Sands TORQUAY	£210	4 Diwrno
Gwener 28 -30 Ionawr	PENWYTHNOS YN LLUNDAIN	£199	3 Diwrno
Iau 3 - 6 Chwefror	Rygbi y Chwe Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN	£349	4 Diwrno
Gwen 11 - 14 Chwefror	Penwythnos yn GWESTY QUEENS, PAIGNTON	£240	4 Diwrno
Llun 21 - 24 Chwefror	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	???	4 Diwrno
Llun 28 Chwef - 4 Maw	Amser Hamddenol yn STREET	£275	5 Diwrno
Gwener 4 -7 Mawrth	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DEVON	£275	4 Diwrno
Sadwrn 12 -15 Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - St AGNES	£270	4 Diwrno
Sul 13 - 14 Mawrth	NOSON YN GWESTY WALDORF, LLUNDAIN	£185	2 Ddiwrno
Gwener 18 -20 Mawrth	CLIVE a'I FFRINDIAU yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£215	3 Diwrno
Gwener 25 -28 Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£250	4 Diwrno
Llun 28 Maw - 1 Ebrill	Prydferthwch SOUTH DOWNS yn BOGNOR REGIS	£335	5 Diwrno
Iau 31 Maw - 4 Ebrill	MÔRDAITH GWATWAROL LLANDUDNO	£425	5 Diwrno
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIROEDD	£495	5 Diwrno
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrno
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrno
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrno
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrno
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrno

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantyffin Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423

Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD

**Croeso i
gleifion GIG!**



Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn **01239 711888**
Crymych **01239 831555**
Arberth **01834 861373**
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan



CYMERADWYDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com



Parti Barti



CYSTADLEUAETH Cyfie i un darlennydd bwus annil llyfr a gyfres Wenfro.

Dyw Owen ac Olwen ddim yn hapus gyda'r holl drysorau annisgwyl sydd ar draeth Aberawen wedi'r parti môr-ladron. Faint o'r canlynol welwch chi yn eu rhwyd?

- ✗ Poteli plastig
- ✗ Caniau bwyd a diod
- ✗ Esgidiau
- ✗ Pell



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/9/22

William a Gethin Harries o Drelech yw onillwyr Cystadleuaeth Daw hyfryd fis.
Ateb: Rhaglyr nedd y mis coll.





PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd hapus i Cai Morris a fydd yn 11 oed ar Awst 18fed. Pob lwc yn yr ysgol Uwchradd! Cariad mawr wrth Mam, Andrew, Jac a'r teulu i gyd xxx



Penblwydd hapus Aneurin yn 2 oed ar y 30ain o Orffennaf, cariad mawr Mami, Dadi, Luned, Mamgu a Datcu Colman House a Mamgu Bwlch.



Penblwydd hapus iawn i Megan Rees o Tymawr, Pentregalar, Crymych a fydd yn 7 mlwydd oed ar Awst y 6ed. Cariad mawr wrth, mam, dad, Gwen, Lleucu, Mamgu a Dadcu Golygfa'r Cwm, Mamgu Tymawr a'r teulu i gyd xx



Penblwydd hapus i Esmi Hâf Kerr oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 1 oed ar Gorffennaf 14eg. Mae Esmi yn ferch i Helen a Dave o Cross Hands, ac yn wyres i Doreen a'r diweddar Brian Brown o Hendygywyn a Samuel a Rosemary Kerr o Gaerfyrddin Cariad mawr wrth y teulu i gyd.



Penblwydd Hapus i Beca Haf Leeke o Hensol a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 7 oed ar Orffennaf 9fed. Yn y llun mae ym Meddgelert yn ystod ei gwyliau yng Ngogledd Cymru. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn James), Anti Iona ac Wncwl Ceri.



Penblwydd Hapus i Caleb Wyn Snelson, Caerfyrddin a fydd yn 11 oed ar y 7fed o Awst. Cariad mawr wrth Dad a Mam; Gwilym; Osian; Tadcu a Mamgu; Taid a Nain Dinbych a'r teulu oll. Diwedd cyfnod yn Ysgol y Dderwen a phob lwc ym Mro Myrddin.



Penblwydd Hapus iawn i Tomos Morris, a ddathlodd ei benblwydd yn 2 oed ar y 17eg o Orffennaf. Cariad Mawr Mam, Dad, a Celt. Xxxx

Penblwydd Hapus!

Penblwydd Hapus i Margot Leah Owen a fu'n dathlu eu phenblwydd yn flwydd oed yn ddiweddar. Mae Margot yn ferch i Gemma Hughes a Daniel Owen o Arberth ac yn wyres i Delyth a William Hughes o Llanddewi Velfrey. Mae yn or wyres i'r diweddar Ceinwen a Dai John o Clunderwen.



Clwb Rygbi Hendydwyn

Dynion

Mae'r clwb eisioes wedi dechrau ymarfer ar gyfer y tymor newydd ac wedi bod yn cynnal sesiynau rygbi cyffwrdd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bydd yr ymarferion yn parhau bob nos Lun a nos Iau am 7 o'r gloch ac estynnir croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni. Bydd Gareth Bennett, Dai Ebsworth a Matt Jeff yn parhau i hyfforddi'r tîm ac rydym fel clwb yn gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u cefnogaeth yn fawr iawn.

Dyma restr y gemau gynhelir dros yr wythnosau nesaf :-

Awst

13eg - Rhydaman (bant)

20fed - Nantffyllon (adref)

24ain - Hwlfordd (bant, Cwpan Sir Benfro)

Medi

3ydd - Felinfoel (bant)

10fed - Tregwyr (adref)

24ain - Penfro (bant)

Menywod

Bydd y menywod yn ail ddechrau ymarfer ar nos Iau, Awst 4ydd am 6.30 o'r gloch. Bydd Dai Ebsworth, Dafydd Cox a Steff Crossman yn parhau i hyfforddi'r tîm ac rydym fel clwb hefyd yn gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u cefnogaeth yn fawr iawn.

Dyma drefn y gemau ar gyfer mis Medi :-

4ydd - Ynysddu (bant) • 11eg - Senghennydd (adref)

Hyfforddi Blaenwyr Clwb Rygbi Crymch



Llongyfarchiadau mawr i Ifan Phillips, Hafod y Pwll, Blaenwaun, ar gael ei apwyntio yn hyfforddwr blaenwyr tîm clwb rygbi Crymch. Fel chwaraewr, cynrychiolodd Ifan dimau ieuenctid Crymch, cyn symud

ymlaen i chwarae dros glybiau Cwms Caerfyrddin, Abertawe, Castell Nedd, y Sgarlets, ac yn fwy diweddar, y Gweilch. Mae Ifan yn awyddus iawn i rannu ei brofiad a'i wybodaeth gyda chwaraewyr y clwb, ac mae'n sicr fod y chwaraewyr yn edrych ymlaen at ddysgu oddi wrtho. Bydd cael mewnbwn wrth gynchwaraewr proffesiynol fel Ifan yn werthfawr iawn i'r tîm. Dymuna papur bro y Cardi Bach bob llwyddiant i Ifan i'r dyfodol

Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy - parhad o dudalen 39



Llun o garfan gyfan Llanboidy yn mwynhau'r dathlu yng nghwmni Kevin a Dorian Phillips

Mae'r tîm yn parhau i fynychu cystadlaethau'n gyson ac yn ymarfer yn galed nawr ar gyfer cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Tynnu Rhaff y Deyrnas Unedig a gynhelir ar y 13eg a'r 14eg o Awst ar dir Coleg Prifysgol Abertawe. Dymunir bob llwyddiant i Glwb Tynnu Rhaff Llanboidy.

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelldre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

olew oil
Trefigin
est. 1982
Y Gwasanaeth sy'n Gwrsogi
THERMATIC TT
DEGL FFRW
LWID OLW
HEATING OIL
DEGL
PARR DIESOL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
Teuluol, lleol, Cymraeg
01283 881650
www.trefigin-cymru
01283 881282

Clwb Rygbi San Cler



Tony Lewis yn derbyn tlws “dyn clwb y flwyddyn” am ei waith gyda’r tîm cyntaf, tîm ieuencid a’r tîm dan 15 oed, wrth Alan (Santa) Reynolds a Delme Thomas, y ddau yn aelodau oes o’r clwb.

Bydd yr ymarferion yn ail ddechrau ar y 7fed o Gorffennaf ac yna’n parhau bob nos Fawrth a nos Iau am 7 o’r gloch ym Mharc Griffith Jones, San Cler. Croeso cynnes i bawb ymuno gyda’r garfan eleni gyda’r clwb yn bwriadu rhedeg dau dîm - tîm cyntaf a tîm datblygu. Yr hyfforddwyr eleni fydd Rhodri Jones, Mike Jones a Dafydd Evans a rheolwr y tîm fydd Tony Lewis.

Cynhelir y dair gêm ganlynol i baratoi ar gyfer y tymor newydd :-
Awst 13eg - adref yn erbyn Abercraf • Awst 20fed - adref yn erbyn Penclawdd
Awst 26ain - i ffwrdd yn erbyn Dinbych y Pysgod



Aled Owens a Geraint Harris yn derbyn tlws “chwaraewr yr sydd wedi datblygu fwyaf” wrth Delme Thomas.

Enillodd Brandon Williams tlws “Chwaraewr y Flwyddyn” a tlws “Chwaraewr y Chwaraewyr y Flwyddyn”. Roedd Brandon yn absennol ar y noson a derbyniodd Gareth Jones, y capten, y tlysau ar ei ran. Enillwyd tlws “chwaraewr y cefnogwyr” gan Shane Morgan.

Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy

Mae’n dymor y tynnu rhaff unwaith eto! Cynhaliwyd y gystadleuaeth gynta eleni yn Llanfynydd ar Sul, 5ed o Fehefin. Er mai siomedig oedd y nifer o dimau a ddaeth i Lanfynydd, roedd hi’n gyfle da i fois Llanboidy ddechrau ail-ymgyfarwyddo gyda gofynion tynnu rhaff cystadleuol. Y Sul canlynol ar y 12fed o Fehefin cynhaliwyd cystadleuaeth yn Hermon gyda’r haul yn tywynnu ar y dorf niferus. Roedd timau dynion, menywod a thimau ieuencid wedi dod ynghyd a chafwyd prynhawn da o dynnu gyda bechgyn Llanboidy yn ennill pob un o’u pwysau. Tro clwb Llanboidy oedd cynnal y gystadleuaeth yr wythnos ganlynol. Yn anffodus, nid oedd y tywydd mor garedig ond eto’i gyd cafwyd diwrnod plerusus gyda bois Llanboidy yn perfformio’n wych unwaith eto. Cynhaliwyd cystadlaethau tynnu yn Cupid’s Hill a Llanddewi Brefi hefyd gyda thim Llanboidy yn cefnogi’r ddau dwrnament ac yn ennill y medalau aur yn gyson.

Ddydd Gwener, 1af o Orffennaf teithiodd y garfan gyfan i Lanidloes ar gyfer cystadleuaeth cenedlaethol Tynnu Rhaff Cymru 2022. Roedd bois Llanboidy yn cystadlu yn

y pum pwysau i ddynion yn ogystal â’r tîm cymysg gyda Merched Hermon. Cafwyd diwrnod arbennig o gystadlu ar y dydd Sadwrn gyda Llanboidy yn llwyddo i gipio pum medal aur ac un arian. Cyflwynwyd Tlws Coffa Cyril Phillips gan Sioned Phillips (gor-wyres Cyril) i hyfforddwr Llanboidy, Kevin Phillips am ennill y nifer uchaf o bwyntiau ar y diwrnod.



Ed, Simon, Rich, Dafydd a Kevin yng nghwmni Bethan, Sara, Shannon a Hannah- Mae sef y tîm cymysg buddugol

parhad ar dudalen 38

CHWARAEON

Clwb Pêl-droed Llanboidy

Cinio diwedd tymor

Cynhaliwyd cinio diwedd tymor Clwb Pêl-droed Llanboidy ar 17eg Mehefin yn y Clwb yn Llanboidy er mwyn dathlu'r tymor a fu, a hefyd i gyflwyno gwobrau am y flwyddyn.

Gwobrau tîm cyntaf:

Wastad yn bresennol: Bledwyn Williams a Gethin Scourfield

Mwyaf o goliau: Ifan Phillips

Chwaraewr y Chwaraewyr: Ross McDonald

Chwaraewr y flwyddyn: Emyr Lewis

Gwobrau yr ail dîm:

Wastad yn bresennol: Cameron Jenkins, Dion Morgan a Llŷr Owen

Chwaraewr mwyaf addawol: Dion Morgan

Chwaraewr ifanc y flwyddyn: Ashton Arnold

Mwyaf o goliau: Daniel Blain

Chwaraewr y Chwaraewyr: Cameron Jenkins

Chwaraewr y flwyddyn: Ryan Pearce

Clwbmon y flwyddyn: Rob Morgan

Diolchwyd yn fawr i bawb wnaeth gynorthwyo'r Clwb ar hyd y tymor - yr hyfforddwyr, chwaraewyr, swyddogion, noddwyr, cynorthwyr y bwyd pob dydd Sadwrn a phawb arall oedd wedi cynorthwyo mewn unrhyw ffordd yn ystod y flwyddyn.

Diolchwyd hefyd i Paul Jenkins oedd yn gadael y Clwb ar ôl bod yn un o hyfforddwyr y tîm cyntaf dros y blynyddoedd diwethaf.

Tymor 2022-2023

Dechreuwyd ymarferion "Pre-Season" y Clwb nos Fawrth, 5ed Gorffennaf yn Llanboidy ar gaeau Dandre. Bydd ymarferion pob Nos Fawrth dros yr Haf, felly croeso cynnes i chwaraewyr hen a newydd ymuno â ni er mwyn paratoi ar gyfer y tymor newydd. Rydym hefyd wedi croesawu Dafydd Makepeace yn ôl fel hyfforddwr i gynorthwyo Paul Williams gyda'r tîm cyntaf ac fe fydd Rob Morgan a Dan Arnold yn hyfforddi'r ail dîm.

Rydym o hyd yn edrych am noddwyr i'r Clwb, ac os oes diddordeb gyda chi neu yn adnabod rhywun sydd â diddordeb – cysylltwch gydag Eirlys Williams ar pauleirlys@btinternet.com.



Emyr Lewis -
Chwaraewr y Flwyddyn Tîm Cyntaf



Ross McDonald -
Chwaraewr y Chwaraewyr Tîm Cyntaf



Dion Morgan -
Chwaraewr Mwyaf Addawol



Cameron Jenkins -
Chwaraewr y Chwaraewyr ail dîm



Ryan Pearce -
Chwaraewr y Flwyddyn ail dîm



Rob Morgan -
Clwbmon y flwyddyn